
Estyn

Mawrth 2022



# Y Cwricwlwm i Gymru

## Sut mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion?

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon / cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen / cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **2** |
| **Prif ganfyddiadau** | **8** |
| **Argymhellion** | **11** |
| **Cymorth ar gyfer dylunio a chyflwyno’r cwricwlwm** | **12** |
| **Cymorth i wella ansawdd yr addysgu fel y galluogwr allweddol ar gyfer diwygio’r cwricwlwm** | **22** |
| **Cymorth ar gyfer arweinyddiaeth o ran addysgu a dysgu** | **27** |
| **Dulliau o werthuso effaith y cymorth ar gyfer ysgolion ac UCDau** | **30** |
| **Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** | **34** |
| **Geirfa** | **37** |
| **Cyfeiriadau** | **39** |

# Cyflwyniad

Cytunodd Estyn gyda Llywodraeth Cymru i gynnal arolwg thematig i adolygu a gwerthuso effaith y cymorth a'r dysgu proffesiynol a ddarperir gan gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i ysgolion ac UCDau i gynorthwyo cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn genedlaethol. Mae ffocws penodol ar yr effaith y mae cymorth wedi'i chael ar ddealltwriaeth ymarferwyr o ddatblygu a dylunio'r cwricwlwm, ac ar wella addysgu a dysgu i alluogi cwricwla cryf ym mhob ysgol yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn ein hadroddiadau am y cwricwlwm a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'r rhain yn cynnwys Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru – astudiaethau achos a chameos o ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig (Estyn, 2020c) sy'n adrodd ar y cryfderau a'r rhwystrau y mae'r ysgolion hyn wedi eu profi fel rhan o'u gwaith cwricwlwm. Yn ychwanegol, edrychodd ein hadroddiad Arloesi'r cwricwlwm mewn ysgolion cynradd (Estyn, 2018a) ar sut roedd ysgolion cynradd yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae hwn yn rhan o gyfres o adroddiadau sy'n rhoi arweiniad yn ystod y cyfnod hwn o newid mewn addysg. Mae adroddiadau blaenorol yn cynnwys: Gwella Addysgu (Estyn, 2018b), Paratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol (Estyn, 2018c), Datblygu arweinyddiaeth – astudiaethau achos o ddysgu proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth ysgolion (Estyn, 2020a) a Partneriaethau â chyflogwyr mewn ysgolion uwchradd ac arbennig (Estyn, 2020b). Mae'r adroddiad hwn hefyd yn defnyddio'r canfyddiadau a rannwyd yn adroddiadau blynyddol diweddar PAEM (Estyn, 2018d; 2019; 2020d).

Y gynulleidfa a fwriedir ar gyfer yr adroddiad hwn yw Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion.

Cafodd y gweithgarwch a gynlluniwyd ar gyfer yr adolygiad thematig ei adolygu a'i addasu yn unol â chyfyngiadau COVID-19. Mae'r adroddiad yn defnyddio canfyddiadau o arolygiadau a gynhaliwyd cyn mis Mawrth 2020, ymweliadau â phob un o'r pedwar consortiwm, y tri awdurdod lleol nad ydynt mewn consortiwm ac ymweliadau ar y safle ac ymweliadau rhithwir â detholiad o ysgolion cynradd, uwchradd, pob oed ac arbennig ledled Cymru. Fel rhan o'u gwaith parhaus, ymgysylltodd ein harolygwyr cyswllt â'r 19 awdurdod lleol sy'n gweithio fel rhan o gonsortiwm rhanbarthol i ddysgu am y cymorth a ddarperir i ysgolion. Fel rhan o'r broses casglu tystiolaeth, defnyddiom ni holiadur agored i gasglu barn arweinwyr a staff ysgolion.

# Cefndir

## Y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol

Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Model Cenedlaethol ar Gyfer Gweithio'n Rhanbarthol (Llywodraeth Cymru, 2014). Ei nod oedd adeiladu ar gydweithio rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion. Dangosodd ymrwymiad dyfnach i weithio'n rhanbarthol, a phwysleisio model gwella ysgolion wedi'i seilio ar gymorth ar y ddwy ochr a oedd yn newydd i raddau helaeth yn y rhan fwyaf o Gymru. Diweddarwyd y model hwn ym mis Hydref 2015 i gofnodi'r cynnydd a wnaed mewn gweithio'n rhanbarthol ac fel dogfen arweiniol i gefnogi cynnydd yn y dyfodol (Llywodraeth Cymru, 2015).

Ar hyn o bryd, mae pedwar consortiwm rhanbarthol yng Nghymru, GwE (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, a Wrecsam), ERW (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe), GCA (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen) a CCD (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg). Ym mis Mawrth 2020, tynnodd Castell-nedd Port Talbot yn ôl o ERW ac, yn 2020, rhoddodd Ceredigion a Phowys rybudd hefyd eu bod am dynnu'n ôl o ERW. Ym mis Medi 2021, lansiwyd Partneriaeth fel partneriaeth y tri awdurdod lleol sy'n weddill o gonsortiwm gwreiddiol ERW (Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro ac Abertawe). Ers hynny, mae Ceredigion a Phowys wedi creu partneriaeth anffurfiol. Nid yw Castell-nedd Port Talbot yn gweithio gyda chonsortiwm rhanbarthol na phartneriaeth ar hyn o bryd.

Yn y Model Cenedlaethol ar Gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol yn glir: "Mae awdurdodau lleol yn cadw'r cyfrifoldebau statudol am ysgolion a gwella ysgolion. Mae'r model cenedlaethol yn seiliedig ar weledigaeth o gonsortia rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion a fydd yn gweithio ar ran awdurdodau lleol i arwain, trefnu a chydlynu gwelliannau ym mherfformiad ysgolion ac yn addysg ein pobl ifanc. Helpu'r rheini sy'n addysgu ein plant a'n pobl ifanc yw prif genhadaeth a diben ein consortia rhanbarthol. Eu swyddogaeth, o'r herwydd, yw cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol gyda'u hymdrechion i:

- wella deilliannau dysgu ar gyfer pob person ifanc;
- sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu a geir o safon; a
- chefnogi a galluogi arweinwyr ysgolion i arwain eu hysgolion yn well." (Llywodraeth Cymru, 2015, tud.5)

## Dyfodol Llwyddiannus

Yn 2014, gofynnodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau i'r Athro Donaldson gynnal adolygiad o drefniadau'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru o'r cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol 4. Mae'r adroddiad deilliedig, sef Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015), yn amlinellu cynigion ar gyfer cwricwlwm newydd sy'n adeiladu ar gryfderau presennol addysg yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn nodi pedwar diben sy'n darparu man cychwyn ar gyfer Cwricwlwm newydd i Gymru, sef:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd boddhaus gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas (Donaldson, 2015, tud.29)

Mae adroddiad Dyfodol Llwyddiannus yn cydnabod ei fod 'yn anochel y bydd y pedwar diben yn galw am ddefnyddio repertoire eang o ddulliau addysgu a dysgu' a bod yna 'gyd-ddibyniaeth sylfaenol rhwng dibenion y cwricwlwm ac addysgeg' (Donaldson, 2015, tt.63-64).

Ar ôl cyhoeddi adroddiad Dyfodol Llwyddiannus, recriwtiodd Llywodraeth Cymru ysgolion arloesi o bob cwr o Gymru i gefnogi dylunio'r Cwricwlwm i Gymru. Trwy gydol yr adroddiad hwn, cyfeirir at hyn fel y cyfnod dylunio cenedlaethol.

## Cwricwlwm Drafft i Gymru

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gwricwlwm drafft a grëwyd ar y cyd ag ysgolion arloesi o bob cwr o Gymru, a bu'n ymgynghori arno. Cafwyd ymateb cryf i'r ymgynghoriad, ac ym mis Ionawr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y canllawiau terfynol ar y cwricwlwm, a ddiweddarwyd i ystyried yr adborth a ddarparwyd (Llywodraeth Cymru, 2020a).

## Y Daith i 2022

Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Y Daith i 2022' (Llywodraeth Cymru, 2020b). Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu disgwyliadau ar y cyd o beth mae gwireddu'r cwricwlwm yn ei olygu i ymarferwyr, ysgolion a lleoliadau o 2022. Ei nod yw helpu ysgolion i baratoi ar gyfer dylunio a gweithredu eu cwricwlwm. O ganlyniad i effaith pandemig COVID-19 ar ysgolion, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg y byddai ysgolion uwchradd yn cael dyddiad gweithredu dewisol, sef Medi 2023, ac y byddai pob darparwr arall yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn unol â'r hyn a drefnwyd ym mis Medi 2022. Er mwyn ystyried effaith y pandemig, diweddarodd Llywodraeth Cymru 'Y Daith i 2022' hefyd, ac ailenwi'r ddogfen Y Daith i Gyflwyno'r Cwricwlwm (Llywodraeth Cymru, 2021a). Mae Y Daith i Gyflwyno'r Cwricwlwm yn ystyried adnewyddu a diwygio, fel ei gilydd, ac yn darparu disgwyliadau ar y cyd ar gyfer ysgolion ac UCDau wrth iddynt symud allan o'r pandemig a thuag at weithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

## Gwella ysgolion yng Nghymru: safbwynt OECD

Yn 2014, cyhoeddodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) adolygiad o addysg yng Nghymru, sef 'Gwella ysgolion yng Nghymru: safbwynt OECD' (OECD, 2014). Mae'r adroddiad yn darparu argymhellion i gryfhau'r system addysg yn y tymor hir. Mae'r adroddiad yn nodi y bu ysgolion yn wynebu heriau o ran rhoi ystod o bolisïau a fframweithiau ar waith, a bod graddfa'r diwygio dros raddfa amser fer yn golygu bod rhai polisïau dim ond yn cael eu rhoi ar waith yn rhannol. Cyhoeddodd yr OECD adroddiad dilynol yn 2017, 'Y Daith i Ddiwygio Addysg yng Nghymru: Asesiad polisi cyflym' (OECD, 2017). Mae'r adroddiad hwn "yn

dadansoddi’r diwygiadau a fabwysiadwyd er 2014 ac yn cynnig argymhellion i lywio’r camau nesaf” (OECD, 2017, tud.7). Canolbwyntiodd yr argymhellion hyn ar agweddau pwysig fel meithrin ‘cyfalaf proffesiynol’, ‘bodloni gofynion dysgu ei fyfyrwyr a sicrhau tegwch ac ansawdd’ a ‘chreu fframwaith asesu ac atebolrwydd cydlynus’ (OECD, 2017, tud.8)

Yn 2021, cyhoeddodd yr OECD yr adolygiad diweddaraf o‘r system addysg yng Nghymru, a rhoddodd ystyriaeth fanylach i ddysgu proffesiynol parhaus athrawon (OECD, 2021). Nododd yr adolygiad hwn gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau. Yn yr adroddiad hwn, mae’r OECD yn cydnabod yr “ymrwymiad gwleidyddol i newid diwylliannol sy’n ffafriol i ddysgu proffesiynol” (OECD 2021, tud.12). Hefyd, nododd fod angen gwella gwerthuso dysgu proffesiynol ar lefel system. Hefyd, nododd yr adroddiad y bu “symud yn y cydbwysedd oddi wrth her i gefnogaeth o fewn y consortia rhanbarthol” (OECD 2021, tud.18), ond awgrymodd nad yw hyn bob amser yn glir ar lefel ysgolion.

**Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl: Cynllun Gweithredu 2017-21**, (Llywodraeth Cymru, 2017)

Mae’r cynllun hwn yn datgan bod datblygu trefniadau cwricwlwm ac asesu gweddnewidiol yn nod annatod y Genhadaeth Genedlaethol, ac y bydd angen i waith i wireddu’r cwricwlwm newydd ganolbwyntio ar y pedwar amcan galluogi allweddol canlynol:

1. Datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel
2. Arweinwyr ysbrydoledig sy’n cydweithio i godi safonau
3. Ysgolion cryf a chynhwysol, sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a lles
4. Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn sy’n cefnogi system hunanwella (Llywodraeth Cymru, 2017, tud.3)

Mae nodau ar gyfer 2021 yn cynnwys:

- defnyddio ymchwil addysgegol a chydweithio effeithiol i gefnogi datblygu cwricwlwm o’r radd flaenaf a fydd yn helpu codi safonau yng Nghymru
- datblygu dull gweddnewidiol o ran dysgu, addysgu ac asesu’r Gymraeg
- ymestyn a hyrwyddo profiadau ehangach disgyblion fel bod y cwricwlwm yn gyfoethog ac amrywiol, yn ogystal â bod yn gynhwysol, yn eang a chytbwys (Llywodraeth Cymru, 2017, tud.18).

### Cynllun Adnewyddu a Diwygio

Yn 2021, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg y ‘Cynllun Adnewyddu a Diwygio’ i ymateb i’r heriau sy’n deillio o bandemig COVID-19 (Llywodraeth Cymru, 2021b). Mae’r cynllun yn amlinellu dull Llywodraeth Cymru o gefnogi ysgolion i alluogi eu disgyblion i wneud cynnydd cryf ac ystyrlon. Mae Llywodraeth Cymru wedi adeiladu ar yr hyn y maent “yn gwybod ei fod wedi helpu cefnogi cynnydd a lles dysgwyr” (Llywodraeth Cymru 2021b, tud.8) yn ystod y pandemig, a chyn hynny.

## Egwyddor sybsidiaredd

Argymhellodd adroddiad Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015) y dylid cymhwyso egwyddor sybsidiaredd i broses diwygio'r cwricwlwm. Roedd y model ysgolion arloesi wrth wraidd y dull hwn. Roedd hyn yn golygu rhwydwaith esblygol o ysgolion arloesi yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Estyn, consortia rhanbarthol a phartneriaid allweddol eraill ar draws y system addysg yng Nghymru i ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru. Yn 2018, lluniodd Llywodraeth Cymru (2018) adroddiad yn gwerthuso'r model ysgolion arloesi. Mae'n cynnwys pump o argymhellion, sef:

1. Angen am fwy o ymgysylltu â'r holl ysgolion partner yng Nghymru
2. Angen i barhau i fonitro ac adolygu'r ffyrdd y cyflawnir rolau a chyfrifoldebau'r holl bartneriaid
3. Angen i sicrhau bod prosesau rheoli risg cadarn ar waith
4. Angen i ymgysylltu â phrifysgolion, canolfannau ymchwil ac arbenigwyr mewn datblygu'r cwricwlwm
5. Angen am gysylltiadau cryfach rhwng arloeswyr y cwricwlwm ac arloeswyr dysgu proffesiynol (Llywodraeth Cymru, 2018)

## Bil Cwricwlwm ac Asesu Cymru

Ar ôl cyhoeddi'r cwricwlwm ym mis Ebrill 2019, lansiodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau'r ymgynghoriad ar gyfer Bil Cwricwlwm ac Asesu Cymru ym mis Medi 2019, y gellir ei weld yma (Senedd Cymru, 2021). Mae hyn yn amlinellu'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, a chafodd gydsyniad brenhinol ym mis Ebrill 2021. Mae'r gofynion deddfwriaethol hyn yn cynnwys yr angen i ysgolion ddatblygu cwricwlwm sydd:


- yn galluogi dysgwyr i ddatblygu tuag at y pedwar diben fel eu bod yn dod:
    - yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
    - yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
    - yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
    - yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas (Senedd Cymru, 2021, tud.1-2)
- yn sefydlu'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh):
    - y celfyddydau mynegiannol
    - iechyd a lles
    - y dyniaethau
    - ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
    - mathemateg a rhifedd
    - gwyddoniaeth a thechnoleg (Senedd Cymru, 2021, tud.2)
- yn gosod tri medr trawsgwricwlaidd gorfodol, sef:
    - cymhwysedd digidol
    - llythrennedd
    - rhifedd (Senedd Cymru, 2021, tud.2)

Ers cyhoeddi adroddiad Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015), yn gyffredinol, comisiynodd awdurdodau lleol y consortia rhanbarthol i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi dylunio a chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys datblygu rhaglen ddysgu i gynorthwyo pob ysgol i ymgysylltu â dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm a gweithio gydag ysgolion arloesi yn ystod y broses ddylunio gychwynnol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae gwaith gwella ysgolion y consortia rhanbarthol i gefnogi agweddau ar addysgu, arwain ac agweddau eraill ar waith yr ysgolion wedi parhau.

## Pwysigrwydd y cwricwlwm, addysgeg ac addysgu o ansawdd uchel

Nododd adroddiad Dyfodol Llwyddiannus y "gyd-ddibyniaeth sylfaenol rhwng dibenion y cwricwlwm ac addysgeg" (Donaldson, 2015, tt.63-64). Yn ychwanegol i hyn, mae ystod eang o ymchwil addysg wedi amlygu pwysigrwydd addysgu o ansawdd uchel fel galluogwr allweddol cwricwlwm llwyddiannus. Mae'r Sefydliad Gwaddol Addysgol yn cydnabod bod "y dystiolaeth orau sydd ar gael yn dangos mai addysgu gwych yw'r ysgogiad pwysicaf sydd gan ysgolion i wella cyrhaeddiad disgyblion. Mae sicrhau bod pob athro'n cael ei gefnogi i gyflwyno addysgu o ansawdd uchel yn hanfodol i gyflawni'r deilliannau gorau ar gyfer yr holl ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwyaf difreintiedig yn eu plith." (y Sefydliad Gwaddol Addysgol, 2021). Amlygodd adolygiad a gynhaliwyd gan Sefydliad Addysg Hong Kong ac Adran Addysg Prifysgol Rhydychen yn 2013 fod athrawon effeithiol yn wybodus am gynnwys y cwricwlwm a'r strategaethau ar gyfer ei addysgu (Ko, Sammons a Bakkum, 2013). Hefyd, nododd adroddiad OECD, 'Teachers Matter', a ddefnyddiodd ganlyniadau o astudiaeth o 25 gwlad o bob cwr o'r byd, er bod ystod o ffactorau'n dylanwadu ar ddysgu myfyrwyr, yn cynnwys ansawdd cwricwlwm, "athrawon ac addysgu yw'r dylanwadau pwysicaf ar ddysgu myfyrwyr. Yn benodol, y consensws bras yw mai 'safon athro' yw'r un newidyn ysgol pwysicaf sy'n dylanwadu ar gyflawniad myfyrwyr." (OECD 2005, tud.2)

## Llinell amser datblygiad cenedlaethol y Cwricwlwm i Gymru



## Effaith y pandemig

Mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar allu'r consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i gynorthwyo ysgolion i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn oherwydd y bu'n rhaid i ysgolion, wrth reswm, ganolbwyntio ar ymateb i feichiau'r pandemig ac, yn y dyddiau cynnar, nid oedd ganddynt y lle na'r gallu i ymgysylltu â dysgu proffesiynol yn seiliedig ar y Cwricwlwm i Gymru. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wedi'i chael yn anoddach ymweld ag ysgolion ac ymgysylltu â nhw wyneb-yn-wyneb.

# Prif ganfyddiadau

## Cymorth ar gyfer dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm

1 Cynorthwyodd y pedwar consortiwm rhanbarthol gyfnod datblygu cenedlaethol y Cwricwlwm i Gymru yn dda. Roedd hyn yn cynnwys cefnogi'r broses i recriwtio ysgolion arloesi a dyrannu nifer sylweddol o'u swyddogion i gefnogi'r broses ddylunio. Yn sgil cael eu cynnwys yn y gwaith hwn, helpwyd datblygu gwybodaeth swyddogion am ddylunio'r cwricwlwm i allu cynorthwyo ysgolion.

2 Yn gyffredinol, rhoddodd y consortia rhanbarthol gymorth da i ysgolion arloesi ymgysylltu â'r cyfnod datblygu cenedlaethol. Yn ychwanegol, rhoesant gyfleoedd addas i ysgolion arloesi rannu diweddariadau â'r ysgolion hynny nad oeddent yn y rhwydwaith ysgolion arloesi.

3 Er gwaethaf y trefniadau hyn, nid yw ysgolion nad oeddent yn y rhwydwaith ysgolion arloesi yn teimlo bod digon o gyfleoedd i ddysgu am waith ysgolion arloesi a datblygu eu dealltwriaeth o'r broses ddylunio genedlaethol. Dywedodd mwyafrif ysgolion y rhwydwaith ysgolion nad ydynt yn ysgolion arloesi nad oeddent yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau cenedlaethol yn ddigon rheolaidd. Trwy gydol y broses ddylunio, esblygodd disgwyliadau cenedlaethol ysgolion arloesi. Roedd y rhain yn cynnwys gofynion ychwanegol a oedd yn aml yn effeithio ar eu gallu i weithio gydag ysgolion y tu allan i'r rhwydwaith arloesi.

4 Yn ystod y cyfnod ymgynghori cenedlaethol, gweithiodd y pedwar consortiwm rhanbarthol a Llywodraeth Cymru yn dda i ddatblygu cyfres o ddigwyddiadau cenedlaethol i rannu'r negeseuon pwysig am y Cwricwlwm i Gymru, a chynorthwyo ymarferwyr i roi ymateb gwybodus i'r ymgynghoriad.

5 Mae'r pedwar consortiwm rhanbarthol a'r tri awdurdod lleol nad ydynt mewn consortiwm mwyach wedi datblygu gweledigaeth addas ar gyfer cynorthwyo ysgolion i ddatblygu eu cwricwlwm a gwella ansawdd yr addysgu. Mae swyddogion consortia wedi datblygu modelau buddiol sy'n arddangos proses dylunio'r cwricwlwm. Yn yr arfer orau, mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cysylltu'n dda â chamau datblygu'r cwricwlwm.

6 Gweithiodd y consortia rhanbarthol gyda'i gilydd yn dda i ddatblygu rhaglen genedlaethol dysgu proffesiynol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r rhaglen hon yn darparu cymorth priodol i ysgolion ystyried ystod o feysydd, fel dulliau o ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu, ac egwyddorion pwysig y Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, mae agweddau ar y rhaglen hon yn canolbwyntio gormod ar theori dylunio'r cwricwlwm ac mae hyn wedi oedi'r cymorth ar gyfer ysgolion ac UCDau i ystyried ymarferoldeb dylunio'r cwricwlwm.

7 Mae'r consortia rhanbarthol a'r tri awdurdod lleol nad ydynt mewn consortiwm mwyach yn datblygu dulliau cryfach o gefnogi cydweithio effeithiol rhwng ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd. Mae ffocws gwell ar helpu athrawon i ddeall sut i adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion.

8 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen alinio gwaith ei hadrannau dysgu proffesiynol a'r cwricwlwm ac mae hyn wedi helpu'r consortia rhanbarthol i ystyried sut orau i gynllunio eu cymorth ar gyfer diwygio'r cwricwlwm. Mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr yn y rhanbarthau'n nodi nad yw telerau ac amodau grant bob amser yn glir neu wedi'u cysylltu'n ddigon da â'u gwaith ar ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm.

### Cymorth ar gyfer gwella addysgu i alluogi cyflwyno'r cwricwlwm yn llwyddiannus

9 Mae'r pedwar consortiwm rhanbarthol a'r tri awdurdod lleol nad ydynt mewn consortiwm ar hyn o bryd wedi rhoi cynlluniau addas ar waith i gynorthwyo eu hysgolion ac UCDau i ystyried eu dulliau addysgu ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn wedi cynnwys eu cynorthwyo i ymgysylltu â'r 12 egwyddor addysgegol ac ystyried y theori sy'n eu hategu.

10 At ei gilydd, mae'r cymorth i wella ansawdd yr addysgu yn rhy amrywiol. Mae hyn oherwydd, yn rhy aml, nid yw cymorth ar gyfer addysgu yn nodi nac yn targedu'r agweddau penodol ar addysgu y mae angen eu gwella yng nghyd-destun ysgol benodol. Yn ychwanegol, mae'r cymorth ar gyfer dulliau addysgu sy'n benodol i bwnc a sector wedi gostwng dros gyfnod.

11 Yn gyffredinol, mae'r consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn targedu eu cymorth ar gyfer gwella addysgu i ysgolion sy'n achosi pryder, er enghraifft y rhai mewn categorïau gweithgarwch dilynol statudol. Mae cymorth ar gyfer yr ysgolion hyn yn fwy effeithiol mewn ysgolion cynradd nag ydyw mewn ysgolion uwchradd, ar y cyfan. Pan fydd cymorth yn fwyaf effeithiol, mae swyddogion yn adnabod eu hysgolion yn dda ac yn teilwra'r cymorth i'r agweddau penodol ar addysgu y mae angen eu gwella yn yr ysgol honno. Pan mae'r gwaith hwn yn llai effeithiol, ni chaiff athrawon eu cynorthwyo'n ddigon da i ddatblygu eu medrau sy'n benodol i bwnc a sector neu wella gwendidau pwysig mewn addysgu.

12 Yn aml, nid oes gan y consortia rhanbarthol ddealltwriaeth ddigon clir o ansawdd yr addysgu a'r dysgu ym mhob un o'u hysgolion ac UCDau. Mae hyn oherwydd nad ydynt bob amser yn gweithio'n ddigon da gydag arweinwyr ysgolion i ystyried ystod y dystiolaeth uniongyrchol i helpu arweinwyr i ddeall y cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn addysgu yn eu hysgolion.

13 Yn ystod y pandemig, datblygodd y consortia rhanbarthol berthnasoedd cryfach â'u hysgolion. Ynghyd â gohirio'r broses gategoreiddio genedlaethol, mae hyn wedi helpu annog trafodaethau mwy gonest am ansawdd yr addysgu.

14 Mae'r consortia rhanbarthol wedi gweithio'n dda i gynyddu'r defnydd o gymorth o ysgol i ysgol, yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw swyddogion bob amser yn monitro'r cymorth hwn yn ddigon cyson i sicrhau ei fod yn cael yr effaith ofynnol.

### Cymorth ar gyfer gwella arweinyddiaeth addysgu

15 Mae'r rhaglen genedlaethol dysgu proffesiynol, a ddatblygwyd gan gonsortia rhanbarthol i ddatblygu medrau arwain mewn ysgolion, wedi cael ei chymeradwyo

gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Mae'n darparu cyfleoedd addas i arweinwyr ymgymryd ag agweddau pwysig ar arweinyddiaeth, yn cynnwys egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, ac arwain newid. Er gwaethaf hyn, mae'r cymorth ar gyfer arwain addysgu yn gyfyngedig, ac nid yw'n galluogi arweinwyr ysgolion i wella'u gallu i werthuso a gwella ansawdd yr addysgu ar lefel ysgol gyfan. Yn rhy aml, ni chaiff arweinwyr eu cynorthwyo'n ddigon da i ystyried yr effaith a gaiff addysgu ar gynnydd a dysgu disgyblion.

16 Nid yw'r consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol bob amser yn nodi materion mewn addysgu ac arweinyddiaeth yn ddigon cyflym. Mae hyn yn golygu na roddir cymorth targedig i ychydig o ysgolion ac UCDau sy'n ddigon amserol i sicrhau'r gwelliannau gofynnol.

## Gwerthuso effaith y cymorth

17 Mae'r consortia rhanbarthol a'r tri awdurdod lleol nad ydynt mewn consortiwm ar hyn o bryd yn casglu ystod o dystiolaeth i ystyried barn rhanddeiliaid am eu gwaith. Gwnânt ddefnydd addas o'r adborth gan gynrychiolwyr sy'n ymgymryd â dysgu proffesiynol i ystyried effeithiolrwydd eu cymorth.

18 Mae arweinwyr y consortia rhanbarthol yn gwneud defnydd priodol o ymgynghorwyr allanol i'w helpu i adolygu eu gwaith. Maent yn ymateb i'r argymhellion o'r adolygiadau hyn yn dda ac yn addasu eu gwaith i ymateb i hynny.

19 At ei gilydd, nid yw'r consortia rhanbarthol a'r tri awdurdod lleol nad ydynt mewn consortiwm ar hyn o bryd yn gwerthuso effaith eu dysgu proffesiynol a chymorth ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu yn ddigon da. Nid ydynt yn gwneud defnydd digon cryf o dystiolaeth uniongyrchol o effaith dysgu proffesiynol ar ysgolion a disgyblion, nac yn nodi'n ddigon clir y meini prawf llwyddiant wrth gynllunio eu dysgu proffesiynol. Hefyd, mae'r gwaith hwn wedi bod yn fwy heriol yn ystod pandemig COVID-19.

## Argymhellion

**Dylai’r consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol:**

A1 Wella ansawdd ac effaith y cymorth ar gyfer arweinwyr i wella addysgu a dysgu yn eu hysgolion

A2 Gwella’r cymorth ar draws pob disgyblaeth bwnc

A3 Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ymarferol sy’n cynorthwyo arweinwyr ac athrawon i ddeall yn well sut gallant ddylunio a chyflwyno eu cwricwlwm

A4 Gwella prosesau gwerthuso fel bod arweinwyr a swyddogion yn monitro effaith y cymorth ar gyfer diwygio’r cwricwlwm ac addysgu

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A5 Ystyried sut gall gwersi a ddysgwyd o’r rhaglen ysgolion arloesi ddylanwadu ar brosiectau cenedlaethol yn y dyfodol

A6 Egluro a symleiddio telerau ac amodau ar gyfer dysgu proffesiynol a datblygu’r cwricwlwm er mwyn galluogi’r consortia rhanbarthol i werthuso eu gwaith yn well

A7 Ystyried dulliau i alluogi’r consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i werthuso effaith a chanlyniadau eu gwaith ar gyfer cefnogi’r cwricwlwm ac addysgu, a chael eu dwyn i gyfrif amdano

# Cymorth ar gyfer dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm

## Proses dylunio'r Cwricwlwm i Gymru

Ar ôl cyhoeddi Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015), comisiynodd pob awdurdod lleol y gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol i roi cymorth ar gyfer datblygu'r cwricwlwm. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r pedwar consortiwm ers cyhoeddi'r adroddiad a thrwy gydol y broses genedlaethol i ddylunio a datblygu'r cwricwlwm. Yn fwy diweddar, gadawodd Castell-nedd Port-Talbot, Ceredigion a Phowys gonsortiwm ERW, ac erbyn hyn, maent yn darparu cymorth â'r cwricwlwm ac addysgu yn uniongyrchol i'w hysgolion.

Ar ôl cyhoeddi Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015), gweithiodd y pedwar consortiwm rhanbarthol yn dda gyda Llywodraeth Cymru i weithredu'r argymhellion a chefnogi cyfnod dylunio a datblygu cenedlaethol y Cwricwlwm i Gymru. Gwnaethant gyfraniadau pwysig tuag at recriwtio ysgolion y cwricwlwm ac ysgolion arloesi'r fargen newydd, a chynorthwyo'r gwaith dylunio parhaus.

Trwy gydol y broses ddylunio, darparwyd swyddogion gan gonsortia rhanbarthol i weithio ochr yn ochr â swyddogion Llywodraeth Cymru i helpu arwain a hwyluso cyd-greu proses ddylunio genedlaethol gydag ysgolion arloesi. Mae hyn wedi cynorthwyo llawer o staff rhanbarthol yn dda i ddatblygu gwybodaeth fanwl am egwyddorion sylfaenol y Cwricwlwm i Gymru a'r broses ddylunio.

Yn ystod y cyfnod dylunio cenedlaethol, gweithiodd consortia rhanbarthol yn dda gydag ysgolion arloesi, ar y cyfan. Mewn llawer o achosion, roedd disgwyl i ysgolion arloesi greu cynlluniau gweithredu ar gyfer eu consortia rhanbarthol i ddangos sut roeddent yn bwriadu gwella eu harferion eu hunain a rhannu gwybodaeth am y broses ddylunio gydag ysgolion eraill. Galluogodd y cynlluniau hyn y consortia rhanbarthol i ennill trosolwg o weithgarwch arfaethedig eu hysgolion arloesi a nodi sut i'w cynorthwyo i ddatblygu a rhannu eu harfer.

Rôl bwysig i ysgolion arloesi oedd rhannu datblygiadau diwygio'r cwricwlwm gyda'r ysgolion hynny nad ydynt yn y rhwydwaith ysgolion arloesi. At ei gilydd, hwylusodd consortia rhanbarthol gyfleoedd i ysgolion arloesi ymgysylltu ag ysgolion eraill yn eu rhanbarth yn briodol. Roedd y rhain yn cynnwys trefnu digwyddiadau a rhwydweithiau ble gellid rhannu gwybodaeth bwysig. Fodd bynnag, nid oedd ysgolion nad oeddent yn y rhwydwaith ysgolion arloesi yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n ddigon da am y datblygiadau yn ystod y cyfnod dylunio, ar y cyfan. Gwelsom fod llawer o ysgolion nad oeddent yn rhai arloesi yn gyffredinol yn cael gwybodaeth gan eu consortia rhanbarthol mewn digwyddiadau ac nid gan eu hysgolion arloesi partner, yn ôl y disgwyl. Trwy gydol y broses ddylunio, newidiodd disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ysgolion arloesi'r cwricwlwm yn rheolaidd. Yn sgil newidiadau o ran disgwyliadau a gwaith, nododd y rhan fwyaf o ysgolion arloesi fod eu hamser i ymgysylltu ag ysgolion eraill yn gyfyngedig.

### Cyfnod ymgynghori ar y cwricwlwm drafft

Cyhoeddwyd y Cwricwlwm drafft i Gymru ym mis Ebrill 2019 ar gyfer ymgynghori arno. Yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn, gweithiodd y consortia rhanbarthol yn effeithiol gyda Llywodraeth Cymru i gynnal ystod eang o ddigwyddiadau 'sioe ffordd' wedi'u hanelu at bob ysgol ac UCD ledled Cymru. Yn y digwyddiadau hyn, ochr yn ochr ag ysgolion arloesi, fe wnaethant rannu egwyddorion sylfaenol y Cwricwlwm i Gymru a galluogi arweinwyr ysgolion a staff i ymgysylltu ag egwyddorion lefel uchel y cwricwlwm, ac ystyried cynnwys unigol pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad. Mae hon yn enghraifft gref o gonsortia rhanbarthol yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i rannu negeseuon cyson ar draws y system. Ers hyn, mae'r consortia rhanbarthol wedi parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, er enghraifft cyfrannu at ddatblygu a chyhoeddi 'Y Daith i Gyflwyno'r Cwricwlwm' (Llywodraeth Cymru, 2021a).

Rhoddodd y digwyddiadau hyn gyfleoedd i uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, athrawon a staff cymorth, ennill dealltwriaeth o'r cynigion i'w cynorthwyo i roi ymatebion mwy gwybodus i'r ymgynghoriad. Fe'u mynychwyd gan nifer dda, ac roedd y gyfradd ymateb i'r ymgynghoriad yn uchel. Yn gyffredinol, dangosodd yr ymatebion gan ysgolion ddealltwriaeth dda o egwyddorion sylfaenol y Cwricwlwm i Gymru.

### Cymorth parhaus ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru

Mae'r pedwar consortiwm rhanbarthol wedi parhau i ddatblygu a darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon ac arweinwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o egwyddorion sylfaenol y Cwricwlwm i Gymru. Yn gyffredinol, darparwyd y cymorth hwn trwy sesiynau dysgu proffesiynol, sy'n cynnwys cyfleoedd ar gyfer myfyrio a thrafod.

Mae pob un o'r pedwar rhanbarth a'r tri awdurdod lleol nad ydynt mewn rhanbarth mwyach wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer cynorthwyo ysgolion ac UCDau i ddatblygu eu cwricwlwm a gwella addysgu. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r weledigaeth yn glir ac yn cael ei deall yn dda gan swyddogion a staff. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn cyd-fynd yn agos â nodau ategol y Cwricwlwm i Gymru, ac mae cynnydd dysgwyr yn ganolog i bob un ohonynt. Mae'r Bartneriaeth wrthi'n dechrau sefydlu ffyrdd newydd o weithio ar hyn o bryd, ac o ganlyniad, mae wedi bod yn anoddach i staff ddatblygu a rhannu eu gweledigaeth gydag ysgolion.

Mae pob un o'r pedwar rhanbarth wedi datblygu modelau buddiol sy'n amlygu egwyddorion pwysig dylunio'r cwricwlwm yn llwyddiannus mewn ysgolion ac UCDau. Er bod y ffordd y caiff y modelau hyn eu cyflwyno yn wahanol ar draws y consortia rhanbarthol, mae'r un egwyddorion sylfaenol yn ganolog iddynt, ac at ei gilydd, maent yn rhoi trosolwg ddefnyddiol o ddylunio'r cwricwlwm yn effeithiol. Mewn llawer o ranbarthau, maent wedi cysylltu eu dysgu proffesiynol yn agos â'r modelau hyn i'w gwneud yn haws i ysgolion nodi eu hanghenion cymorth a dysgu proffesiynol.

**Y Daith i 2022: Model Meddwl am Ddylunio**

Mae Consortiwm Canolbarth y De wedi datblygu model meddwl am ddylunio i gynorthwyo eu hysgolion ac UCDau i ddeall proses ddylunio'r cwricwlwm. Mae meddwl am ddylunio yn ddull a ddefnyddir ar gyfer datrys problemau yn ymarferol ac yn greadigol. Mae swyddogion o Gonsortiwm Canolbarth y De wedi cymhwyso'r dull hwn i feddwl am ddylunio i gynorthwyo eu meddwl o amgylch dylunio'r cwricwlwm. Fel rhan o'r dull hwn, maent wedi nodi tri phrif gam, sef deall, archwilio a gwireddu. Mae'r rhain wedi cael eu halinio â'r camau yng nghanllawiau Y Daith i Weithredu'r Cwricwlwm. Mae hyn yn helpu swyddogion Consortiwm Canolbarth y De i gynorthwyo ysgolion i ddatblygu prosesau dylunio a sicrhau bod eu cymorth yn gydnaws â'r disgwyliadau hyn a rennir. I gynorthwyo ysgolion i ddatblygu'r agweddau hyn ar eu gwaith, maent wedi nodi is-gamau ac wedi amlinellu i ysgolion sut gallant ymdrin â'r cam hwn yn eu proses ddylunio.

Mae swyddogion wedi cysylltu eu rhaglen dysgu proffesiynol Cwricwlwm i Gymru â phob un o'r camau a amlinellir yn y model meddwl am ddylunio er mwyn i ysgolion allu manteisio ar y dysgu proffesiynol sy'n addas iddyn nhw yn ystod camau penodol datblygu'r cwricwlwm.

**Cerrig milltir ar gyfer dylunio a chyflwyno'r Cwricwlwm**

I gynorthwyo eu hysgolion ac UCDau i fapio eu cynnydd tuag at ddiwygio'r cwricwlwm, datblygodd GwE gyfres o gerrig milltir sy'n gysylltiedig â chyflwyno Y Daith i Gyflwyno'r Cwricwlwm a'u prosesau ar gyfer dylunio'r cwricwlwm. Mae'r cerrig milltir hyn yn darparu meini prawf llwyddiant i ysgolion ystyried a gwerthuso eu cynnydd yn eu herbyn. Mae swyddogion GwE wedi cysylltu eu rhaglen dysgu proffesiynol â'r cerrig milltir hyn er mwyn i ysgolion allu nodi eu hanghenion dysgu a chymorth.

Caiff y cerrig milltir eu diweddaru bob tymor, ac mae ymgynghorwyr gwella ysgolion yn gweithio gydag ysgolion i ystyried cynnydd a nodi'r camau nesaf.

Er bod y modelau hyn yn ddefnyddiol, nid ydynt bob amser yn gwneud yn ddigon clir y cyswllt â gwella addysgu fel y galluogwr allweddol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Pan fydd arweinyddiaeth yn llai effeithiol, mae ysgolion yn dylunio a datblygu eu cwricwlwm o bryd i'w gilydd heb feddwl yn ddigon gofalus am sut byddant yn gwella ansawdd yr addysgu i gefnogi gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r pedwar consortiwm rhanbarthol wedi gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddatblygu rhaglen genedlaethol dysgu proffesiynol i gynorthwyo ysgolion ac UCDau i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru ac egwyddorion sylfaenol dylunio'r cwricwlwm, fel mathau o fodelau cyflwyno'r cwricwlwm, deall y pedwar diben, egwyddorion dilyniant a phwysigrwydd medrau trawsgwricwlaidd. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys sesiynau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu, cynllunio ar gyfer newid y cwricwlwm ac egwyddorion sylfaenol y Cwricwlwm i Gymru. Datblygwyd y rhaglenni ar gyfer uwch arweinwyr, arweinwyr canol, athrawon a staff cymorth, ac mae negeseuon wedi'u teilwra i weddu

i anghenion y cynulleidfaoedd penodol. Yn gyffredinol, mae'r sesiynau hyn yn darparu trosolwg damcaniaethol defnyddiol o egwyddorion dylunio'r cwricwlwm, a nododd mwyafrif yr ysgolion eu bod wedi eu gweld yn fuddiol. Fodd bynnag, ni all ysgolion mewn un awdurdod lleol nad ydynt mewn consortiwm mwyach fanteisio ar y cynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol hwn. Mae hyn yn cyfyngu'r ysgolion hyn rhag gallu manteisio ar ddatblygiadau cenedlaethol pwysig ac ar y cynnig dysgu proffesiynol cyffredin sydd ar gael ledled Cymru. Nododd ychydig o'r ysgolion yn yr awdurdod lleol hwn y byddent yn croesawu'r cyfle i ymgymryd â'r rhaglenni cenedlaethol hyn a ddatblygwyd yn rhanbarthol i gefnogi datblygu eu cwricwlwm.

Mae'r rhaglen genedlaethol ar gyfer y cwricwlwm a ddatblygwyd yn rhanbarthol yn darparu cymorth generig i ysgolion ac UCDau ddatblygu eu hymagweddau at y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r rhaglen hon yn darparu negeseuon clir a chyson. Er bod ysgolion wedi gweld y cymorth gan ranbarthau ar 'ddatblygu gweledigaeth ysgol gyfan' yn ddefnyddiol, teimlai tua hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw a'r rhai a ymatebodd i'n harolwg fod angen i'r ffocws symud yn gyflym i gynorthwyo ysgolion ag ymarferoldeb dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Nododd yr ysgolion hyn fod ansawdd cyflwyno'r dysgu proffesiynol hwn yn amrywiol a bod natur generig y rhaglen yn golygu nad yw bob amser yn darparu'n ddigon da ar gyfer anghenion penodol ysgolion unigol. Mewn ychydig o achosion, mae'r gwaith estynedig hwn ar weledigaeth wedi datblygu camsyniad di-fudd fod rhaid i bob ysgol ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu ym mhob maes dysgu a phrofiad, ac ar gyfer pob un o'r medrau trawsgwricwlaidd. Yn ychwanegol, mae'r amser cyfyngedig a dreuliwyd ar weledigaeth wedi cyfyngu ar yr amser y mae ychydig o ysgolion wedi'i dreulio yn canolbwyntio ar ddatblygu addysgu effeithiol, yn cynnwys dulliau sy'n benodol i bwnc a disgyblaeth, ac wedi cyfyngu eu hymgysylltiad ag elfennau ymarferol dylunio'r cwricwlwm.

**Rhwydwaith arweinwyr dylunio'r cwricwlwm uwchradd**

Yn ddiweddar, mae'r GCA wedi sefydlu rhwydwaith arweinwyr dylunio'r cwricwlwm uwchradd. Mae'r rhwydwaith hwn yn darparu cyfleoedd buddiol i arweinwyr o bob un o'r ysgolion uwchradd yn y GCA drafod eu cynlluniau ar gyfer dylunio a datblygu eu cwricwlwm.

Caiff y trafodaethau hyn eu llywio gan ymchwil, ac ymweliadau ag ysgolion yng Nghymru a'r tu allan, lle bo modd. Maent yn darparu man cychwyn buddiol i ysgolion ystyried rhai o'r nodweddion ymarferol ynglŷn â dylunio'r cwricwlwm.

Fel rhan o'u cymorth cynnar ar gyfer diwygio'r cwricwlwm, darparodd pob un o'r pedwar consortiwm raglen ddefnyddiol ar reoli newid ar gyfer arweinwyr ysgolion a staff rhanbarthol. At ei gilydd, helpodd hyn arweinwyr a swyddogion i ddeall y ffactorau pwysig i'w hystyried wrth gynllunio a gweithredu newid, ac anogodd arweinwyr ysgolion i ystyried sut orau y gallai staff gael eu cynorthwyo i fynd i'r afael â phryderon ac arddel diwygio'r cwricwlwm.

**Cymorth i reoli newid**

Darparodd GwE ddysgu proffesiynol i'w hysgolion ac UCDau i'w cynorthwyo i ymgysylltu â rheoli newid mewn cyd-destun addysgol. Canolbwyntiodd y cymorth hwn ar arwain newid i gynorthwyo â diwygio addysgol, ac roedd yn cyd-fynd â'r egwyddorion a amlinellir yn y gwaith ar ysgolion fel sefydliadau dysgu. Teimlai ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ystod yr adroddiad thematig hwn y bu'r hyfforddiant hwn yn ddefnyddiol o ran galluogi arweinwyr i ddatblygu eu gwybodaeth am y broses rheoli newid, a nodi sut orau i ymdrin â newid gyda'u staff.

Darparodd y cymorth ystod o ddulliau ymarferol a alluogodd arweinwyr i gynllunio ymagwedd bwyllog a chymedrol at ddylunio a chyflwyno eu cwricwlwm.

Wrth ymateb i'n harolwg, nododd llawer o arweinwyr ac athrawon eu bod wedi cael cymorth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru trwy ymgysylltu â'r rhaglen genedlaethol neu swyddogion y cwricwlwm. Gan amlaf, roedd y cymorth hwn yn gysylltiedig â datblygu dealltwriaeth o egwyddorion sylfaenol y Cwricwlwm i Gymru, rhannu gwybodaeth ar lefel uchel am bob un o'r meysydd dysgu a phrofiad, a datblygu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu. Teimlai mwyafrif y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg fod y cymorth a gawsant yn ddefnyddiol, a theimlai tua hanner ohonynt fod y cymorth wedi cael effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm.

Yn ystod y pandemig, mae'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol wedi parhau i fod yn sensitif o ran eu hymagwedd tuag at gefnogi diwygio'r cwricwlwm. Ymatebodd y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol i anghenion ysgolion, a darparu gofod i ysgolion ganolbwyntio ar eu hymdrechion o'r newydd. Darparon nhw lefelau uchel o gymorth ar gyfer dysgu digidol a chynorthwyo ysgolion i ddatblygu eu dulliau o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol. Mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wedi adeiladu ar y dysgu o'r cyfnod hwn ac yn parhau i addasu a datblygu eu cymorth ar gyfer ysgolion. Er enghraifft, maent yn parhau i ddarparu swm sylweddol o ddysgu proffesiynol ar-lein, ac yn parhau i nodi a rhannu arfer effeithiol trwy'r platfformau a ddatblygwyd yn ystod y cyfnodau clo cenedlaethol.

Er mwyn creu gofod ar gyfer ysgolion ac UCDau yn ystod y pandemig, gohiriodd consortia rhanbarthol y rhaglen gymorth genedlaethol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, a dim ond dechrau ei gynnig pan nododd ysgolion fod yr amser yn briodol iddyn nhw. Cyflwynwyd pob sesiwn yn rhithiol, a chofnododd consortia rhanbarthol y rhain i alluogi pob ysgol i gael cyfle i ymgysylltu ar adeg a oedd yn gweithio orau iddyn nhw. At ei gilydd, mae ysgolion wedi croesawu'r ymagwedd at ddysgu proffesiynol o bell. Mae pob un o'r pedwar consortiwm a'r tri awdurdod lleol nad ydynt mewn consortiwm ar hyn o bryd yn parhau i gynnig y rhan fwyaf o'u dysgu proffesiynol ar-lein.

Yn ystod cyfnod cychwynnol y pandemig, datblygodd swyddogion o'r consortia rhanbarthol berthnasoedd mwy agored, gonest a thryloyw gyda'u hysgolion ac arweinwyr ysgolion, ac maent yn teimlo y bydd hyn yn eu galluogi i gynorthwyo ysgolion yn well â phroses diwygio'r cwricwlwm. Mae'r consortia wedi datblygu a darparu hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer eu swyddogion gwella sydd wedi eu cynorthwyo'n dda i wella eu dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru i'w helpu i

gynorthwyo ysgolion. Fodd bynnag, mae lleiafrif o benaethiaid yn teimlo bod gwaith swyddogion gwella o ran cefnogi dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn rhy amrywiol.

Nododd arweinwyr fod ansawdd y cymorth gan eu swyddog gwella yn ffactor pwysig yn ansawdd ac effaith y cymorth a gânt yn gyffredinol. Pan mae hyn yn fwyaf effeithiol, mae swyddogion gwella yn gweithio ochr yn ochr ag arweinwyr ysgolion i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella clir ac a ddeellir yn dda. Maent yn alinio'r cymorth ar gyfer diwygio'r cwricwlwm â'r blaenoriaethau ysgol gyfan, ac yn cynllunio cymorth teilwredig ar gyfer staff sy'n ategu'r rhaglen gymorth generig sydd ar gael i bob ysgol. Yn benodol, mae penaethiaid wedi croesawu ymweliadau cymorth gan swyddogion arweiniol ar gyfer y cwricwlwm. Mae'r cymorth hwn wedi rhoi cyfleoedd i arweinwyr ysgolion drafod eu cynlluniau presennol gyda swyddogion sydd wedi herio, cynorthwyo a datblygu eu ffordd o feddwl i wella eu prosesau cynllunio a gwella. Yn yr achosion hyn, mae swyddogion yn cynorthwyo arweinwyr i ddatblygu dealltwriaeth gref o egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru a dylunio'r cwricwlwm yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn helpu arweinwyr i rannu egwyddorion clir ar gyfer eu proses dylunio a datblygu'r cwricwlwm.

**Cynorthwyo ysgolion**

Darparodd Consortiwm Canolbarth y De gymorth buddiol i Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi i ddatblygu eu hymagweddau at ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm.

Mae tîm y cwricwlwm wedi darparu dysgu proffesiynol ysgol gyfan ar gyfer staff ac wedi parhau i ymgysylltu â'r ysgol yn rheolaidd. Fe wnaeth yr ymgysylltu hwn alluogi'r ysgol i drafod a datblygu eu hymagweddau at ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm, a galluogodd iddynt nhw fanteisio ar raglen gymorth fwy teilwredig.

Mae arweinwyr yn credu bod y cymorth hwn wedi esblygu dros gyfnod, ac wedi eu helpu i ddeall camsyniadau pwysig. Er enghraifft, maent bellach yn deall nad yw'n ofynnol iddynt ddatblygu gweledigaeth ar gyfer pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad. Yn ychwanegol, maent yn croesawu'r ffocws pwysig ar gefnogi meysydd pwnc unigol.

**Cynorthwyo ysgolion**

Gweithiodd Ysgol Gynradd Y Clas mewn partneriaeth ag ERW ac awdurdod lleol Abertawe i ddatblygu eu hymagwedd at y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r ysgol wedi cael ystod o ddysgu proffesiynol gan swyddogion cwricwlwm rhanbarthol i ystyried dulliau o ddatblygu addysgu ac ystyried y theori sy'n ategu dylunio'r cwricwlwm.

Mae hyn wedi helpu arweinwyr i ddatblygu eu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu, ac mae arweinwyr yn teimlo bod staff yn datblygu dealltwriaeth gref o egwyddorion sylfaenol y Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'u hysgol uwchradd fwydo a'r ysgolion cynradd bwydo eraill i ystyried sut gallant ddatblygu dulliau o ran addysgu a'r cwricwlwm i gefnogi'r continwwm mewn dysgu.

Fel rhan o’u gwaith i gefnogi’r Cwricwlwm i Gymru, mae’r pedwar consortiwm rhanbarthol wedi gweithio i ddatblygu dulliau ar gyfer ysgolion sy’n gweithio mewn clystyrau. Mae’r gwaith hwn yn canolbwyntio ar wella’r cydweithio rhwng yr holl ysgolion, yn cynnwys rhwng ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd. Yn y gorffennol, mae’r gwaith hwn wedi canolbwyntio gormod ar bontio bugeiliol a ddim yn ddigon cryf ar gynorthwyo disgyblion i adeiladu ar eu dysgu o’r ysgol gynradd a chyflymu cynnydd yn ystod yr ysgol uwchradd. Mae swyddogion consortia rhanbarthol wedi cydnabod hyn, ac yn dechrau gweithredu dulliau a gynorthwyodd ysgolion i ganolbwyntio’n agosach ar gynnydd ac asesu disgyblion wrth iddynt symud rhwng ysgolion. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae consortia rhanbarthol yn ariannu’r gwaith clwstwr hwn ac yn disgwyl i ysgolion ddatblygu cynllun ar gyfer sut byddant yn gweithio gyda’i gilydd i wella eu cynnig cwricwlwm a phrofiadau dysgu disgyblion, a mesur yr effaith a gaiff y gwaith hwn ar gynnydd disgyblion. Fodd bynnag, ar adegau, mae ffocws y cynlluniau hyn yn rhy eang, ac mae hyn yn cyfyngu ar allu swyddogion consortia rhanbarthol i werthuso effaith y gwaith hwn.

**Cefnogi cynnydd a phontio**

Mae swyddogion yn GwE wedi gweithio i sicrhau bod partneriaethau rhwng ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd yn cael eu cryfhau. Maent wedi ariannu gwaith hwylusydd clwstwr Cwricwlwm i Gymru (athro arweiniol) am y tair blynedd ddiwethaf. Mae’r athro hwn yn gweithio gyda’r clwstwr i rannu negeseuon pwysig am ddatblygiadau cenedlaethol gyda’r Cwricwlwm i Gymru, yn cydlynu gwaith yr ysgolion, ac yn gweithio’n agos gyda thîm cwricwlwm GwE.

I gefnogi’r gwaith hwn, disgwylir i bob clwstwr o ysgolion greu cynllun sy’n amlinellu’r gweithgarwch disgwyliedig i fodloni meini prawf llwyddiant y cytunir arnynt fel rheol ar gyfer cynorthwyo eu staff i ddatblygu eu gwybodaeth am y cwricwlwm ac addysgu, a’u medrau ynddynt. Yn ychwanegol, rhaid i’r cynlluniau hyn ystyried sut bydd yr ysgolion yn datblygu eu dulliau o gefnogi cynnydd disgyblion wrth iddynt drosglwyddo rhwng gwahanol sectorau.

Mae’r gwaith hwn yn helpu grwpiau o ysgolion i ddatblygu eu dealltwriaeth o gynnydd disgyblion a’r continwwm dysgu.

O ganlyniad i’w hymglymiad cryf yn y cyfnod dylunio cenedlaethol, yn gyffredinol, mae swyddogion rhanbarthol yn meddu ar ddealltwriaeth dda o egwyddorion sylfaenol y Cwricwlwm i Gymru a’r camsyniadau di-fudd sy’n gysylltiedig ag ef. Mewn ychydig o achosion, mae swyddogion wedi datblygu ffyrdd defnyddiol o amlygu rhai o’r camsyniadau hyn i helpu ysgolion yn eu proses ddylunio, er enghraifft trwy weithgareddau tanio cyflym holi ac ateb ar ddechrau sesiynau dysgu proffesiynol neu drwy gyhoeddi blogiau. Fodd bynnag, ni chaiff y rhain eu rhannu’n gyson gydag arweinwyr ysgolion yn ddigon da. O ganlyniad, mewn ychydig o ysgolion, nid yw uwch arweinwyr yn deall nodau ategol y cwricwlwm newydd yn llawn, nac yn eu harddel. Nid yw’r arweinwyr hyn yn meddwl nac yn cynllunio’n ddigon strategol wrth ddatblygu eu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm, dysgu ac addysgu yn eu hysgolion. Mae ychydig o ysgolion yn copïo dull, strwythurau a chynnwys cwricwlwm ysgolion eraill yn hytrach na datblygu eu trefniadau eu hunain. Yn ychwanegol, mae ychydig o ysgolion uwchradd yn benodol wedi symud i gyflwyno gwersi unigol ar gyfer maes

dysgu a phrofiad cyfan heb feddwl yn ddigon gofalus am sut byddant yn datblygu gwybodaeth benodol i bwnc disgyblion i ddatblygu a gwella'u dysgu. O ganlyniad, yn aml, mae datblygu'r cwricwlwm yn rhy arwynebol, ac nid yw'n cynorthwyo disgyblion yn ddigon da i wneud y cysylltiadau rhyngddisgyblaethol cryf y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn eu hyrwyddo. Yn yr un modd, mae ychydig o ysgolion wedi symud tuag at ddulliau thematig heb feddwl yn ddigon da am eu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu na'r wybodaeth a phrofiadau yn benodol i ddisgyblaeth a sector y mae angen iddynt eu datblygu. Weithiau, mae hyn wedi arwain at greu cysylltiadau arwynebol, ac nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd digon cryf wrth ddatblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth.

**Ystyried camsyniadau**

Mae Consortiwm Canolbarth y De wedi datblygu dull buddiol i ystyried ac amlygu rhai o'r camsyniadau di-fudd ynglŷn â dylunio'r cwricwlwm a'r Cwricwlwm i Gymru.

Ar ddechrau unrhyw sesiynau dysgu proffesiynol, mae cynrychiolwyr yn ystyried cwestiynau amlddewis 'tanio cyflym'. Mae'r cwestiynau hyn yn canolbwyntio'n agos ar gamsyniadau pwysig ac yn helpu cynrychiolwyr i ystyried sut gallent fynd i'r afael â'r rhain yn eu lleoliadau.

Mae'r pedwar consortiwm rhanbarthol wedi datblygu dulliau i hyrwyddo datblygu arferion wedi'u llywio gan ymchwil yn eu hysgolion. Maent yn darparu ystod eang o ddysgu proffesiynol i ddatblygu gallu athrawon i ymgymryd ag ymholi proffesiynol, ac mae swyddogion yn defnyddio ystod eang o ymchwil i lywio eu dysgu proffesiynol. Mae arweinwyr yn y consortia rhanbarthol wedi ymrwymo i ddefnyddio ymchwil berthnasol i ddatblygu eu harfer eu hunain, ac wedi gweithio'n dda gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi'r ymagwedd genedlaethol at ddefnyddio ymchwil mewn addysg.

**Ymholi proffesiynol a dylunio'r cwricwlwm**

Ymgysylltodd Ysgol Gynradd Nant Y Parc â rhaglen ymholi proffesiynol a gychwynnwyd gan y GCA gyda Phrifysgol Stirling i ddatblygu eu hymagweddau at ymholi i gefnogi dylunio'r cwricwlwm.

Mae arweinwyr a staff wedi elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol i ddatblygu eu dulliau ymchwil ac ymholi. O ganlyniad, mae pob un o'r staff, yn cynnwys staff cymorth, wedi ymgymryd ag ymholiadau proffesiynol ystyrlon yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol. Helpodd y canfyddiadau o'r ymchwil hon i lywio ymagweddau'r ysgol at ddylunio'r cwricwlwm.

Mae gan arweinwyr yn yr ysgol hon ymagwedd glir at ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm sy'n cael ei deall yn dda gan bob aelod o staff. Maent yn teimlo eu bod yn cael cymorth da i ddatblygu eu hymagweddau at y Cwricwlwm i Gymru, ac yn benodol, wedi cael eu cynorthwyo gan ymweliadau allanol ag ysgolion yn Yr Alban, ac o'r tu mewn i Gymru.

Mae arweinwyr yn Nant Y Parc wedi nodi bod y dulliau ymholi hyn wedi eu cynorthwyo i wella ymagweddau at werthuso eu cwricwlwm, ac wedi cynorthwyo pob un o'r staff yn dda i nodi sut orau y gall eu disgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau trwy brofiadau dysgu o ansawdd uchel.

Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, mae ysgolion wedi cael cymorth da i ystyried eu hymagweddau at ddylunio'r cwricwlwm. Yn yr achosion hyn, mae swyddogion gwella ysgolion yn gweithio'n agos gydag arweinwyr ysgolion i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella, ac yn cynorthwyo'r ysgol i ddatblygu ymagwedd glir ac ystyriol at ddylunio eu cwricwlwm. Caiff hyn ei lywio'n dda gan ymagwedd yr ysgol at addysgu o ansawdd uchel, ac mae'n galluogi pob un o'r staff i ddeall gweledigaeth yr ysgol gyfan ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu. Mae'r ysgolion hyn yn darparu'r gofod i staff ddatblygu eu dealltwriaeth o egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, a deall y meysydd dysgu a phrofiad unigol. Yn yr enghreifftiau gorau, cânt eu cynorthwyo'n dda i ystyried sut mae disgyblaethau pwnc yn cyfrannu tuag at ddysgu disgyblion er mwyn iddynt allu gwneud cysylltiadau cryf ac ystyrlon trwy gydol eu cwricwlwm ac addysgu.

Mae'r dysgu proffesiynol ar gyfer dylunio'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd defnyddiol i arweinwyr ac athrawon ddeall gwahanol fodelau cyflwyno'r cwricwlwm, ond nid yw'n eu cynorthwyo'n ddigon da i ddeall sut i gymhwyso proses dylunio'r cwricwlwm yn ymarferol yn eu hysgolion. Ni chaiff athrawon eu cynorthwyo'n ddigon da i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i ddylunio cwricwlwm ar gyfer eu hystod oedran, pwnc neu faes. At ei gilydd, nid yw'r cymorth cwricwlwm a ddarperir ar gyfer ysgolion hyd yma yn canolbwyntio'n ddigon agos ar gynorthwyo ysgolion ag ymarferoldeb dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Mae swyddogion yn cydnabod hyn ac yn dechrau ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â'r maes hwn.

Mae'r pedwar consortiwm rhanbarthol wedi sicrhau bod y rhaglen gymorth genedlaethol ar gael i bob ysgol, yn cynnwys ysgolion arbennig ac UCDau. Yn ystod y cyfnod dylunio cenedlaethol, cynorthwyodd consortia rhanbarthol yr ysgolion arbennig yn y rhwydwaith ysgolion arloesi yn briodol, a hwyluswyd cyfleoedd i'r ysgolion hyn gyfarfod fel grŵp. Mae ysgolion arbennig yng Nghymru wedi defnyddio eu rhwydweithiau cryf i gydweithio i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm, ac wedi ymgysylltu â'r rhaglen genedlaethol. Fodd bynnag, nid yw consortia rhanbarthol wedi teilwra cymorth pwrpasol yn ddigon da i ddiwallu anghenion unigol ysgolion arbennig ac UCDau.

Gweithiodd y consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru gyda'i gilydd yn dda i sefydlu rhwydweithiau cenedlaethol sy'n hwyluso trafodaethau ynglŷn â newid a diwygio'r cwricwlwm. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu ystod o grantiau i gonsortia rhanbarthol i'w galluogi i ddarparu cymorth i ysgolion ar gyfer datblygu eu cwricwlwm a gweithredu diwygio addysgol. Mae telerau ac amodau clir i'r grantiau hyn, ac mae'r consortia rhanbarthol yn cynllunio eu cymorth yn unol â'r rhain. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae consortia rhanbarthol yn ei chael yn anodd cynllunio ar gyfer cyflwyno yn y dyfodol oherwydd, yn rhy aml, nid ydynt yn cael eu gwneud yn ymwybodol o gyllid grant na'r telerau ac amodau, gyda digon o amser i gynllunio eu defnydd yn effeithiol. Yn ychwanegol, o bryd i'w gilydd, mae'r consortia rhanbarthol yn gweld o bryd i'w gilydd nad yw telerau'r grant ar gyfer dysgu proffesiynol a datblygu'r cwricwlwm yn alinio'n ddigon da. Weithiau, mae hyn yn cyfyngu eu gwaith ac yn ailgyfeirio swyddogion i fodloni amodau penodol grant.

Wrth ystyried cymorth y tri awdurdod lleol nad ydynt mewn rhanbarth ar hyn o bryd, mae'n rhy gynnar, ar y cyfan, i fesur effaith eu gwaith o ran gwella gwybodaeth arweinwyr ac athrawon am ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Er bod y tri awdurdod lleol yn datblygu strwythurau addas i gynorthwyo eu hysgolion, megis dechrau

datblygu y mae eu gwaith ar hyn o bryd. Gadawodd Castell-nedd Port Talbot ranbarth ERW yn 2019, ac ers hynny, mae swyddogion wedi gweithio i sefydlu dealltwriaeth glir o’r Cwricwlwm i Gymru, ac wedi ystyried dulliau gwerthuso a gwella. Mae eu prif ffocws ar ddatblygu addysgeg ac arfer. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu datblygu y mae’r cynlluniau i gynorthwyo ysgolion â dylunio a chyflwyno’r cwricwlwm. Mae llawer o’r cymorth yng Nghastell-nedd Port Talbot yn canolbwyntio ar ddatblygu cwricwla yn y sector cynradd, ac nid yw cynlluniau i gynorthwyo ysgolion uwchradd wedi’u datblygu’n ddigonol, ar y cyfan.

## Cymorth i wella ansawdd yr addysgu fel y galluogwr allweddol ar gyfer diwygio'r cwricwlwm

Mae ystod eang o ymchwil wedi dangos mai addysgu yw un o'r cyfranwyr pwysicaf at gynnydd cwricwlaidd cryf a chynnydd cryf gan ddisgyblion. Mae'r Sefydliad Gwaddol Addysgol (2021) wedi amlygu bod "y dystiolaeth orau sydd ar gael yn dangos mai addysgu gwych yw'r ysgogiad pwysicaf sydd gan ysgolion i wella cyrhaeddiad disgyblion". Hefyd, mae'n awgrymu "y dylid cynorthwyo pob athro i gyflwyno addysgu o ansawdd uchel". "Gwyddom o hyn, ac o ymchwil arall, ei bod yn bwysig fod ysgolion yn ystyried sut mae plant yn dysgu, sut maen nhw'n datblygu gwybodaeth a medrau, a sut gellir eu cynorthwyo i osod sylfeini cadarn ar gyfer dysgu yn ddiweddarach" (Sefydliad Gwaddol Addysgol, 2021). Mae John Hattie (2003) yn adleisio'r farn hon, gan ysgrifennu "dylem ni ganolbwyntio ar y ffynhonnell amrywiant fwyaf a all wneud y gwahaniaeth – yr athro" (Hattie, 2003, tud.2).

Mae pob un o'r pedwar consortiwm rhanbarthol a'r tri awdurdod lleol nad ydynt mewn consortiwm rhanbarthol ar hyn o bryd yn meddu ar ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd addysgu o ansawdd uchel fel y galluogwr allweddol i ddiwygio'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae pob un ohonynt wedi gosod blaenoriaethau clir fel rhan o'u cynllunio busnes i wella ansawdd yr addysgu yn eu hysgolion.

Fel rhan o'u gwaith i gefnogi datblygu'r Cwricwlwm i Gymru, mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i gyd wedi datblygu rhaglenni dysgu proffesiynol sy'n galluogi arweinwyr ac athrawon i ymgysylltu â'r 12 egwyddor addysgegol. Mae'r rhaglen dysgu proffesiynol hon yn darparu trosolwg damcaniaethol o bob un o'r egwyddorion, ac yn annog athrawon i fyfyrio ar sut gallent ddefnyddio'r rhain yn ymarferol.

Yn adroddiadau blynyddol PAEM, bu arwydd clir fod ansawdd yr addysgu ar draws y system yn rhy amrywiol, ar y cyfan, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd (Estyn, 2018d; 2019; 2020d). Mae'r adroddiadau hyn wedi nodi, ble mae'r addysgu yn effeithiol, bod athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda, yn cynllunio profiadau dysgu sy'n ennyn eu diddordeb, yn adeiladu ar ddysgu blaenorol ac yn sicrhau bod tasgau ac adnoddau yn cynorthwyo ac yn herio pob disgybl yn dda. Maent yn gofyn cwestiynau treiddgar sy'n dyfnhau dysgu ac yn ysgogi disgyblion i feddwl yn ddwfn, ac yn eu herio i ddatblygu eu hymatebion. Yn yr achosion hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion, ac mae ganddynt wybodaeth bynciol gref y maent yn ei defnyddio i gynllunio'n ofalus i adeiladu ar ddysgu disgyblion yn dda. Defnyddiant gyfuniad effeithiol o ddulliau addysgu, yn cynnwys addysgu uniongyrchol, yn seiliedig ar ddealltwriaeth gref o ddysgu blaenorol disgyblion, a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae Pennod 5 'Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru', (Donaldson, 2015) yn darparu canllaw defnyddiol i ddulliau addysgu effeithiol, fel y rhai a amlinellir uchod.

Pan mae'r addysgu yn llai effeithiol, yn gyffredinol, mae hyn oherwydd disgwyliadau isel a chynllunio gwan. Yn yr achosion hyn, nid yw athrawon yn adeiladu ar ddysgu

blaenorol disgyblion yn ddigon da, ac nid ydynt yn darparu lefel briodol o her. Mae hyn yn cyfyngu ar y cynnydd a wna disgyblion. Mae tasgau'n cadw disgyblion yn brysur, ond nid ydynt yn eu herio i ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth nac yn eu galluogi i ddatblygu eu medrau mewn cyd-destunau ystyrlon. Yn yr ysgolion hyn, yn aml, mae athrawon yn gor-gyfarwyddo'r dysgu, ac yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion feddwl neu weithio yn annibynnol. Maent yn parhau â strwythurau gwersi sydd efallai'n cydymffurfio â pholisi'r ysgol, ond nad ydynt yn helpu disgyblion i wneud cynnydd. Maent yn gwirio bod disgyblion yn gallu galw i gof, ond nid ydynt yn archwilio eu dealltwriaeth.

Dros gyfnod, mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wedi datblygu cymorth i fynd i'r afael â'r meysydd addysgu pwysig sydd angen eu gwella. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae ansawdd ac effaith y cymorth i wella ansawdd yr addysgu yn rhy amrywiol.

Mae consortia rhanbarthol yn targedu eu hadnoddau i weithio'n briodol at yr ysgolion hynny sydd angen y cymorth mwyaf, er enghraifft y rhai sydd wedi cael eu gosod mewn categori gweithgarwch dilynol statudol ar ôl arolygiad. Pan mae ysgolion ac UCDau wedi gallu manteisio ar y cymorth hwn, mae canfyddiadau ein harolwg yn dangos bod llawer ohonynt yn gweld hyn yn ddefnyddiol, ac yn teimlo y bu o gymorth iddynt ddatblygu dealltwriaeth fwy cyson o addysgu effeithiol a gwella cydweithio rhwng athrawon ac ar draws ysgolion.

Wrth gynorthwyo ysgolion mewn categori statudol, i wella ansawdd yr addysgu, mae'r consortia rhanbarthol yn gyffredinol yn galluogi athrawon i ddatblygu dealltwriaeth o rai o nodweddion addysgu effeithiol, fel sefydlu arferion ar gyfer dysgu, datblygu eu dulliau holi a gwella her ar gyfer pob un o'r disgyblion. Mae'r cymorth hwn yn fwy effeithiol mewn ysgolion cynradd nag ydyw mewn ysgolion uwchradd, ar y cyfan. Yn aml, mae ysgolion uwchradd mewn categori gweithgarwch dilynol statudol yn aros yn y categori am gyfnod rhy hir. Mae hyn yn bennaf oherwydd nad yw'r addysgu'n ddigon effeithiol, ac nid yw'r cymorth a ddarperir yn galluogi addysgu i wella'n ddigon cyflym. Mae consortia rhanbarthol wedi neilltuo adnoddau sylweddol i gynorthwyo llawer o'r ysgolion hyn, ond at ei gilydd, mae effaith y cymorth hwn yn rhy amrywiol a chyflymdra'r gwella yn rhy araf.

Pan mae'r cymorth ar gyfer addysgu yn fwyaf effeithiol, mae'r consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn targedu'r adnodd yn dda ac yn dod i ddeall yn dda beth yw'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn addysgu. Maent yn darparu cymorth buddiol yn benodol i sector a phwnc sy'n helpu addysgu i wella cynllunio a chyflwyno, sy'n cynorthwyo'r ysgol i wneud cynnydd addas. Yn yr achosion hyn, caiff y cymorth ei dargedu yn unol ag anghenion unigol a blaenoriaethau gwella'r ysgol ac athrawon unigol. Mae swyddogion gwella ysgolion yn defnyddio ystod o dystiolaeth uniongyrchol i fonitro effaith y cymorth hwn yn rheolaidd, ac yn gwneud newidiadau ble mae angen. Pan mae'r cymorth hwn yn llai effeithiol, nid yw'r cymorth a gynigir yn canolbwyntio'n ddigon agos ar yr agweddau penodol ar addysgu sydd angen eu gwella, ac ni chaiff athrawon eu cynorthwyo'n ddigon da i ddatblygu eu haddysgeg yn benodol i sector neu bwnc, neu ddeall sut beth yw addysgu effeithiol a chynnydd.

**Cefnogi datblygu addysgeg**

Mae GwE wedi datblygu rhaglen gymorth ar gyfer datblygu dulliau addysgu.

Ategir y rhain gan y deuddeg egwyddor addysgegol a amlinellir yn yr adroddiad Dyfodol Llwyddiannus, ac maent yn ystyried agweddau eraill, fel ystyried sut orau mae plant ifanc yn dysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae athrawon yn ymgysylltu â'r rhaglen dysgu proffesiynol hon trwy gyfres o ddigwyddiadau, gyda gweithgareddau i'w cwblhau rhwng sesiynau sy'n anelu at dargedu a mireinio dulliau addysgu.

Yn ystod y sesiwn olaf, mae swyddogion GwE yn gwahodd staff i rannu'r arfer effeithiol y maent wedi'i datblygu yn ystod y rhaglen.

Mae consortia rhanbarthol a'r tri awdurdod lleol nad ydynt mewn consortiwm ar hyn o bryd yn gwella eu dulliau o nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn addysgu yn eu hysgolion ac UCDau. Yn gyffredinol, mae effeithiolrwydd y gwaith hwn yn dibynnu ar ansawdd gwaith y swyddog gwella ysgolion, a pha mor dda y mae'n gweithio gydag arweinwyr i ystyried ystod o dystiolaeth uniongyrchol i lywio'r gwerthusiadau hyn. Yn yr achosion gorau, cynhelir y gwerthusiadau hyn ochr yn ochr ag arweinwyr ysgolion i'w cynorthwyo i ddatblygu dealltwriaeth dda o gryfderau a meysydd i'w gwella yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn eu hysgol. Mae hyn yn eu cynorthwyo i nodi blaenoriaethau clir ar gyfer gwella a chynllunio rhaglen gref ar gyfer dysgu proffesiynol, sy'n darparu cymorth effeithiol ar gyfer yr holl athrawon i wella eu harfer. At ei gilydd, mae effaith y cymorth i wella ansawdd yr addysgu yn rhy amrywiol. Mae hyn oherwydd, yn aml, nid yw gwerthuso yn gwneud y cysylltiad rhwng gwendidau yn ansawdd yr addysgu a'r cynnydd a wna disgyblion. Yn y lleiafrif o achosion, ble mae arweinwyr ysgolion yn rhy gadarnhaol am ansawdd yr addysgu a'r cynnydd maent wedi'i wneud neu ble nad yw cynnydd ysgol yn gyson gryf, nid yw'r consortia rhanbarthol bob amser yn gallu nodi gofynion cymorth digon penodol. O ganlyniad, nid yw'r ysgolion hyn yn gwella'n ddigon da, ac mewn ychydig o achosion, cânt eu gosod mewn categori gweithgarwch dilynol neu gategori statudol, sydd wedyn yn sbarduno lefelau cymorth uchel.

Mae'r consortia rhanbarthol a'r tri awdurdod lleol nad ydynt mewn consortiwm mwyach wedi rhoi cynlluniau ar waith i gynorthwyo datblygu addysgu yn benodol i bwnc a sector. Mae hyn yn bennaf ar gyfer Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Pan fydd ysgolion yn gallu manteisio ar y cymorth hwn, maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i ddatblygu eu dealltwriaeth o addysgeg yn benodol i bwnc. Fodd bynnag, mae argaeledd y cymorth hwn wedi gostwng dros gyfnod ac yn gyffredinol, ac o ganlyniad, mae'r effaith ar draws consortia ac awdurdodau lleol yn rhy amrywiol. Pan fydd y cymorth hwn yn fwyaf effeithiol, mae swyddogion pwnc neu ymarferwyr arweiniol o ysgolion yn gweithio'n agos gydag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol i nodi'r agweddau penodol ar addysgu a dysgu y mae angen eu gwella. Maent yn ystyried yr addysgeg yn benodol i bwnc a sector yn ofalus ac yn datblygu dulliau i wella gwybodaeth athrawon am gynnwys addysgegol. Mae'r swyddogion hyn yn cynllunio ystod o gymorth sy'n cynnwys sesiynau dysgu proffesiynol, cynllunio a chyflwyno gwersi ar y cyd, ac mae'r rhain yn cynorthwyo

athrawon i ddatblygu eu medrau addysgu’n dda. Maent yn monitro effaith eu gwaith yn agos, ac yn gwneud defnydd da o dystiolaeth uniongyrchol i addasu a newid eu dulliau. Nododd Coe *et al.* (2014) fod gwybodaeth am gynnwys addysgegol, gallu athro i ddefnyddio’i wybodaeth bynciol gref a deall y ffyrdd y mae disgyblion yn dysgu orau yn y pwnc hwnnw, yn cael effaith gref ar gynnydd disgyblion.

**Cefnogi addysgeg ac addysgu yn benodol i bwnc**

Mae’r Bartneriaeth wedi datblygu eu dulliau i gefnogi addysgu ac addysgeg yn benodol i bwnc. Yn gyffredinol, darperir y cymorth hwn ar gyfer Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae ysgolion yn y rhanbarth wedi elwa ar y cymorth ar gyfer y Gymraeg yn ystod y pandemig a’u proses i ddatblygu’r cwricwlwm. Mae dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr canol wedi eu helpu i ddeall sut i gynorthwyo athrawon yn eu hadrannau i ddatblygu eu dulliau o ran y cwricwlwm ac addysgu, a deall yr agweddau pwysig ar addysgu cryf yn Gymraeg. Mae’r ysgolion hyn yn gweld yr adnoddau a rennir gyda nhw yn ddefnyddiol ac yn gefnogol o ran galluogi athrawon i ystyried y ffyrdd gorau i helpu eu disgyblion i wneud cynnydd mewn dysgu.

Yn gyffredinol, mae rhwydweithiau arweinwyr canol ar gyfer Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn fuddiol ar gyfer arweinwyr canol, ac yn darparu cyfleoedd buddiol i rannu a datblygu arfer.

Mae ychydig o’r consortia rhanbarthol wedi nodi bod angen cynyddu’r adnodd ar gyfer cefnogi pob maes pwnc, ac wedi ceisio recriwtio staff ychwanegol trwy secondiadau neu ysgolion arweiniol. At ei gilydd, ni chaiff ysgolion ddigon o gyfle i fanteisio ar gymorth penodol i bwnc y tu hwnt i’r pynciau craidd, a rhaid targedu’r cymorth at yr ysgolion sydd fwyaf mewn angen. O ganlyniad, ni chaiff digon o athrawon eu cynorthwyo i ddatblygu eu pwnc a dulliau addysgu a dysgu yn benodol i ddisgyblaeth neu sector. Mae’r dulliau hyn yn cyfrannu’n bwysig at alluogi athrawon i ddylunio a datblygu eu cwricwlwm.

Wrth ymateb i’n harolwg, nododd ychydig o arweinwyr ac athrawon eu bod wedi cael cymorth yn benodol i bwnc neu sector gan gonsortia rhanbarthol, ac ychydig iawn gan awdurdodau lleol. Gwelodd llawer o’r athrawon neu’r arweinwyr hyn fod y cymorth hwn yn ddefnyddiol, a chafodd effaith gadarnhaol ar eu haddysgu. Y gwelliannau mwyaf cyffredin oedd gwella cydweithio a datblygu dealltwriaeth glir o addysgu effeithiol.

Mae’r consortia rhanbarthol wedi darparu ystod eang o ddysgu proffesiynol defnyddiol i staff cymorth ar bob lefel i ddeall pedwar diben y cwricwlwm a sut gallant sicrhau bod y profiadau dysgu y maent yn eu darparu ar gyfer disgyblion yn ymgorffori’r rhain. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw’r cymorth hwn wedi helpu ysgolion i ddatblygu dealltwriaeth o gwricwlwm wedi’i yrru gan ddiben. Nid yw ychydig o ysgolion yn deall yn llawn yr angen i bob profiad dysgu gael diben clir yn gysylltiedig â’u sector, disgyblaeth neu faes dysgu a phrofiad, yn ogystal â chefnogi datblygu’r pedwar diben.

Mae pob un o'r consortiwm rhanbarthol a'r tri awdurdod lleol nad ydynt mewn consortiwm rhanbarthol wedi cynyddu eu hymagwedd at weithio o ysgol i ysgol i gefnogi gwelliannau mewn addysgu a dylunio'r cwricwlwm. Mae hyn yn helpu llawer o ysgolion i ddysgu'n dda oddi wrth gryfderau ysgolion eraill, ac wedi hyrwyddo rhannu arfer effeithiol. Fodd bynnag, nid yw swyddogion gwella bob amser yn monitro nac yn gwerthuso cymorth o ysgol i ysgol yn ddigon da i sicrhau bod yr ysgolion a gynorthwyir yn elwa ar yr ymgysylltu, a bod y gwaith yn cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu.

**Datblygu cymorth o ysgol i ysgol**

Mae'r GCA wedi datblygu strategaeth glir ar gyfer gwella'r cymorth o ysgol i ysgol y maent yn ei ddarparu.

Fel rhan o'r cynllun hwn, maent wedi datblygu Ysgolion y Rhwydwaith Dysgu. Mae'r rhain yn ysgolion y mae'r GCA wedi nodi bod ganddynt faes arfer hynod gryf, a'r capasiti arwain ac addysgu i gynorthwyo ysgolion eraill yn eu taith i wella.

Disgwylir i'r ysgolion hyn ddangos eu harfer effeithiol a gweithio'n agos gydag ysgolion i deilwra cymorth a monitro gwelliannau. Mae timau gwella ysgolion y GCA yn gweithio'n agos gydag ysgolion y Rhwydwaith Dysgu hwn i sicrhau eu bod yn cynorthwyo ysgolion targedig yn effeithiol i ysgogi gwelliannau.

Mae llawer o ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r adroddiad thematig hwn yn croesawu'r ymagwedd hon, ac mae arweinwyr yn teimlo bod Ysgolion y Rhwydwaith Dysgu wedi eu cynorthwyo i ddatblygu a gwella eu harfer.

Mae'r cymorth ar gyfer addysgu a dysgu proffesiynol sydd ar gael i bob ysgol yn rhy ddamcaniaethol ar y cyfan, ac nid yw wedi galluogi athrawon i feddwl y tu hwnt i'r 12 egwyddor addysgegol i nodi dulliau addysgu a dysgu effeithiol. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw'r cymorth ar gyfer addysgu yn ddigon teilwredig na thargedig. O ganlyniad, ni chaiff ysgolion eu cynorthwyo'n ddigon da i wella'r agweddau penodol ar addysgu sy'n peri problem. Yn ychwanegol, ni chaiff ychydig o ysgolion eu cynorthwyo'n ddigon da i ddeall pwysigrwydd addysgu fel y galluogwr allweddol i ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Pan mae'r addysgu'n llai effeithiol, caiff ysgolion anhawster yn datblygu a gweithredu cwricwlwm, ac mae hyn yn cyfyngu ar allu'r ysgolion hyn i ddylunio a chyflwyno eu cwricwlwm yn llwyddiannus, yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r pedwar consortiwm rhanbarthol wedi datblygu rhaglen ymsefydlu glir ar gyfer athrawon newydd gymhwyso ac mae hyn yn darparu cyfleoedd addas i'r athrawon hyn ymgysylltu ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, ac yn eu cynorthwyo i ystyried sut gallant gynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol disgyblion. Yn ychwanegol, mae'r cysylltiadau y mae'r consortia rhanbarthol wedi'u datblygu gyda phartneriaethau addysg gychwynnol athrawon wedi eu galluogi i gynllunio a theilwra eu rhaglenni i ddiwallu anghenion athrawon newydd gymhwyso yn fwy effeithiol.

## Cymorth ar gyfer arweinyddiaeth o ran addysgu a dysgu

Mae adroddiadau blynyddol ac adroddiadau thematig Estyn, fel ‘Teithiau gwella deuddeg ysgol uwchradd’ (2013), ‘Arfer orau o ran datblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion’ (2015) ac ‘Arweinyddiaeth a gwella ysgolion cynradd’ (2016) wedi pwysleisio bod arweinyddiaeth a datblygu capasiti arwain mewn ysgolion yn hanfodol i wella perfformiad ysgolion. Yn benodol, yn yr adroddiadau blynyddol mwy diweddar, mae PAEM wedi amlygu pwysigrwydd gwella arweinyddiaeth o ran addysgu (Estyn, 2018d; 2019; 2020d).

Mae Matthews (2007) yn amlygu pwysigrwydd arweinyddiaeth gref o ran addysgu, ac yn nodi bod arweinwyr ysgolion cryf yn deall nodweddion addysgu effeithiol yn dda ac yn nodi cryfderau a meysydd i’w gwella yn eu hysgol eu hunain i dargedu cymorth a datblygiad.

Gan fod addysgu yn alluogwr allweddol diwygio’r cwricwlwm yn llwyddiannus, mae cymorth ar gyfer datblygu gallu arweinwyr ysgolion i yrru gwelliannau’n barhaus yn ansawdd yr addysgu yn ffactor pwysig. Yn yr adroddiad thematig ar wella addysgu, amlygom ni fod arweinwyr effeithiol ‘yn canolbwyntio’n dda ar wella addysgu ac addysgeg’. Yn gyffredinol, maent:

- yn meithrin diwylliant o ymholi ac ymgysylltu
- yn ymddiried yn eu staff i wneud dewisiadau proffesiynol
- yn meddu ar bolisi ystafell ddosbarth agored
- yn creu cyfleoedd ar gyfer deialog broffesiynol am addysgu
- yn gosod addysgu ac addysgeg yn rheolaidd fel eitemau agenda mewn cyfarfodydd uwch arweinwyr a staff
- yn defnyddio diwrnodau datblygiad proffesiynol yn gyfleoedd strategol i archwilio mentrau pellach mewn addysgu a dysgu
- yn creu amser dynodedig i athrawon gymryd rhan mewn arsylwadau cymheiriaid ac ymchwil weithredu
- yn defnyddio ymchwil i lywio’r penderfyniadau a’r strategaeth ar gyfer eu hysgol
- yn meddu ar bolisïau clir ar gyfer addysgu, adborth a’r cwricwlwm y mae pob un o’r staff yn eu deall ac yn glynu atynt
- yn sefydlu perthnasoedd proffesiynol o fewn eu rhanbarth, a thu hwnt
- yn gofyn am gyngor arbenigol, ac yn gweithredu arno

(Estyn, 2018, tud. 5).

Mae’r pedwar consortiwm rhanbarthol wedi gweithio’n dda gyda’i gilydd dros gyfnod i ddatblygu rhaglenni cenedlaethol ar gyfer cefnogi a gwella arweinyddiaeth. Mae’r rhaglenni hyn wedi cael eu cymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, ac wedi’u cysylltu â’r llwybr arweinyddiaeth ranbarthol.

Mae’r rhaglenni cenedlaethol hyn yn darparu cyfleoedd addas i arweinwyr ymgysylltu â’r Cwricwlwm i Gymru ac ystyried pwysigrwydd gwella addysgu. Yn ychwanegol, mae cyfleoedd priodol i arweinwyr archwilio sut gallent gasglu tystiolaeth

uniongyrchol i werthuso ansawdd yr addysgu a nodi meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae'r cymorth a'r dysgu proffesiynol ar gyfer gwella arweinyddiaeth yr addysgu yn rhy amrywiol. Nid ydynt yn cynorthwyo arweinwyr yn ddigon da i ddeall sut gallant arwain a gwella addysgu na phwysigrwydd addysgu o ansawdd uchel wrth gefnogi dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn llwyddiannus.

Yn ein hadroddiad thematig 'Datblygu Arweinyddiaeth', argymhellom ni y dylai consortia rhanbarthol ystyried sut gallent "gynyddu'r ffocws ar ddatblygu gallu arweinwyr i ysgogi gwelliant yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu" (Estyn, 2020a, tud. 5). Er bod y rhaglenni cenedlaethol yn darparu cyfleoedd i arweinwyr ystyried sut gallent werthuso'r addysgu, nid ydynt yn eu cynorthwyo'n ddigon da ag ymarferoldeb casglu gwybodaeth effeithiol a chywir i gefnogi eu gwerthusiad. Mae hyn yn rhannol oherwydd, yn rhy aml, ni chaiff arweinwyr eu cynorthwyo i ystyried yr effaith a gaiff addysgu ar ddysgu a chynnydd disgyblion. Yn ychwanegol, nid ydynt yn cynorthwyo arweinwyr yn ddigon da i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella mewn addysgu na chynllunio a mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn er mwyn iddynt allu arwain addysgu yn eu hysgolion yn fwy effeithiol.

Yn gyffredinol, mae effaith y cymorth ar gyfer gwella addysgu yn dibynnu ar ansawdd yr arweinyddiaeth yn yr ysgol neu'r UCD dargedig. Mae hyn oherwydd, at ei gilydd, nid yw'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol yn dilyn trywydd eu cymorth yn ddigon da i sicrhau bod arweinwyr yn cymryd camau effeithiol i wella addysgu nac yn eu cynorthwyo'n ddigon rheolaidd i sicrhau gwelliannau. Pan fydd capasiti arwain ar gyfer addysgu yn wannach, mae'r ysgolion hyn yn cymryd yn hirach i wella.

Mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wedi gwella eu perthnasoedd â'u hysgolion ac UCDau yn ystod y pandemig. Mae hyn yn bennaf gan eu bod wedi addasu eu cymorth ac wedi ymgysylltu ag arweinwyr i gefnogi lles staff a disgyblion, ac wedi darparu cymorth amserol i ymateb i agweddau ar y pandemig. Mae hyn wedi cynnwys cymorth ar gyfer dysgu digidol a helpu ysgolion i ymateb a chynllunio yn ystod y pandemig parhaus. Mae staff mewn ysgolion a chonsortia rhanbarthol yn teimlo bod oedi categoreiddio cenedlaethol wedi cefnogi'r perthnasoedd agored a thryloyw hyn i ddatblygu'n dda. Mae hyn oherwydd bod ysgolion yn teimlo'n llai gofidus am rannu gwendidau, ac yn fwy parod i ofyn am gymorth gan nad ydynt yn pryderu nawr am gyhoeddi categori eu hysgol. Mae ysgolion a swyddogion consortia rhanbarthol fel ei gilydd yn croesawu proses ble caiff eu hanghenion cymorth eu nodi, a bod eu cryfderau a meysydd i'w gwella yn cael eu deall, gyda darpariaeth ar eu cyfer.

Mae swyddogion gwella ysgolion yn ymgysylltu'n rheolaidd ag arweinwyr ysgolion i drafod ansawdd yr addysgu ac arweinyddiaeth yr addysgu a'r cwricwlwm. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, mae gan swyddogion gwella ysgolion berthnasoedd cryf sy'n caniatáu ar gyfer sgyrsiau tryloyw a gonest gydag arweinwyr am y cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn ansawdd yr addysgu a'r cwricwlwm. Hefyd, mae'r swyddogion hyn yn gweithio ochr yn ochr ag arweinwyr i gasglu ystod o dystiolaeth uniongyrchol i werthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i ddatblygu dulliau cryfach i werthuso a gwella, ac yn galluogi swyddogion gwella ysgolion i nodi gwaelodlin glir ar gyfer ansawdd yr addysgu i sicrhau bod cymorth yn deilwredig, yn bwrpasol ac yn effeithiol. Pan fydd prosesau cryf, maent yn galluogi swyddogion gwella ysgolion i nodi blaenoriaethau clir ar gyfer gwella ac yn

gweithio'n dda gyda swyddogion cwricwlwm ac ysgolion eraill i frocera cymorth teilwredig sy'n cynorthwyo'r ysgol i wneud cynnydd. Yn yr enghreifftiau hyn, mae cynlluniau cymorth clir ar waith sy'n nodi meini prawf llwyddiant a cherrig milltir monitro buddiol. Mae'r rhain yn helpu arweinwyr ysgolion a swyddogion gwella ysgolion yn agos i fonitro effaith y gwaith hwn yn effeithiol. Caiff hyn ei wella ymhellach gan gymorth arwain pwrpasol sy'n galluogi arweinwyr ysgolion i ddatblygu eu capasiti i werthuso a gwella addysgu. Mae monitro effaith y cymorth yn effeithiol yn galluogi swyddogion i addasu a newid i gynorthwyo ble mae angen, ac mae'r ysgolion hyn yn gwneud cynnydd cryf a chyflym.

Pan mae'r cymorth yn llai effeithiol, yn gyffredinol, mae swyddogion gwella yn dibynnu'n ormodol ar y wybodaeth a ddarperir gan arweinwyr ysgolion, ac nid ydynt yn triongli'r gwerthusiadau hyn gydag ystod ddigon da o dystiolaeth uniongyrchol. Mae hyn yn aml oherwydd bod swyddogion gwella ysgolion yn cael amser cyfyngedig i'w dreulio mewn ysgolion, neu, mewn ychydig o achosion, oherwydd nad yw eu medrau a'u profiadau mewn gwerthuso a gwella yn ddigon cryf. Yn gyffredinol, nid yw'r cymorth pwrpasol ar gyfer datblygu arweinyddiaeth o ran addysgu yn ddigon effeithiol, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Pan mae ansawdd arweinyddiaeth ysgolion yn llai cryf, mae effaith y cymorth ar gyfer addysgu yn rhy amrywiol. Mae hyn oherwydd nad yw'r cymorth yn galluogi arweinwyr ar bob lefel i ddatblygu eu capasiti i wella addysgu. I ymateb i hyn, mae'r consortia rhanbarthol a'r tri awdurdod lleol nad ydynt mewn consortiwm ar hyn o bryd wedi mireinio eu dulliau i gynorthwyo arweinwyr yn well ar bob lefel i sicrhau gwelliannau mewn addysgu. Fodd bynnag, mae'r cynnig pwrpasol hwn weithiau'n dibynnu ar gyflwyno'r rhaglenni a ddatblygwyd yn genedlaethol ar gyfer pob arweinydd mewn ysgolion unigol. Nid yw'r rhaglenni hyn wedi'u teilwra bob amser i anghenion datblygu penodol yr ysgol neu'u harweinwyr, ac felly mae effaith y gwaith hwn yn rhy amrywiol.

Mae consortia rhanbarthol wedi datblygu dulliau a systemau i gasglu trosolwg o ansawdd yr arweinyddiaeth ym mhob un o'u hysgolion ac UCDau. Mewn mwyafrif o achosion, mae hyn yn helpu'r consortia rhanbarthol a'r awdurdod lleol i flaenoriaethu eu cymorth a thargedu ysgolion penodol. Dros gyfnod, mae'r consortia rhanbarthol wedi bod yn well yn nodi materion yn ansawdd yr addysgu a'i arweinyddiaeth mewn ysgolion cynradd nag y maent mewn ysgolion uwchradd. Mewn lleiafrif o achosion, maent yn dibynnu'n ormodol ar ganfyddiadau arolygu i sbarduno cymorth, ac nid ydynt yn ddigon rhagweithiol yn gyson wrth nodi ysgolion sydd mewn perygl, a'u cynorthwyo cyn eu gosod mewn categori statudol. Yn yr achosion hyn, nid yw swyddogion gwella ysgolion yn ystyried effaith yr arweinyddiaeth ar addysgu a chynnydd disgyblion yn ddigon da. Mae hyn yn eu hatal rhag nodi a chefnogi gwendidau pwysig yn ansawdd yr arweinyddiaeth mewn ysgolion.

## Dulliau o werthuso effaith y cymorth ar gyfer ysgolion ac UCDau

Wrth ystyried dulliau i werthuso effaith y dysgu proffesiynol, nododd King (2014) mai “gwerthuso effaith” dysgu proffesiynol “yn aml yw’r ddolen wannaf” (King, 2014, tud.3). Yn y gwaith ymchwil hwn, nodwyd nad yw gwerthuso dysgu proffesiynol yn aml yn cael ei ystyried yn ddigon da. Wrth ystyried ystod o fframweithiau ar gyfer gwerthuso effaith dysgu proffesiynol, nododd King, er mwyn gwerthuso dysgu proffesiynol yn ddigonol, mae angen i ni symud y tu hwnt i “edrych ar foddhad athrawon i archwilio effaith ar arferion athrawon, sydd, yn eu tro, yn anelu at wella deilliannau disgyblion a gwella ysgolion” (King, 2014, tud.18).

Mae’r pedwar consortiwm rhanbarthol yn casglu ystod addas o safbwyntiau rhanddeiliaid a’r rhai sydd wedi mynychu eu rhaglenni dysgu proffesiynol ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu. Mae’r rhain yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i swyddogion ac arweinwyr i’w helpu i nodi cryfderau a meysydd i’w datblygu yn eu darpariaeth. Yn y mwyafrif o achosion, mae swyddogion yn defnyddio’r wybodaeth hon i’w cynorthwyo i ddatblygu ac addasu eu rhaglenni er mwyn gwella’r ansawdd a’r effaith bosibl.

Mae’r consortia rhanbarthol yn ystyried yn rheolaidd nifer y darparwyr a’r ymarferwyr sy’n ymgysylltu â’u rhaglenni dysgu proffesiynol ac yn defnyddio’r wybodaeth hon i roi trosolwg i awdurdodau lleol o’r darparwyr sydd wedi cael cymorth yn ymwneud â’r Cwricwlwm i Gymru. Defnyddir y wybodaeth hon yn briodol i nodi a thargedu ysgolion ble mae ymgysylltu’n achosi pryderon.

Mae ymagweddau cryf at gynllunio busnes yn y consortia rhanbarthol, ac mae’r cynlluniau hyn yn amlinellu cerrig milltir clir i wirio cynnydd yn erbyn camau gweithredu, a monitro gwaith swyddogion. Wrth ystyried eu gwaith eu hunain, ar gyfer datblygu’r cwricwlwm ac addysgu, yn gyffredinol, mae’r consortia rhanbarthol yn amlinellu meini prawf llwyddiant clir ar gyfer yr effaith y maent yn ei disgwyl ar gyfer eu sefydliad, ac mae hyn yn eu galluogi i fonitro cynnydd ac effaith yr agwedd hon ar eu gwaith yn dda. Fel rhan o’r cynllunio hwn, mae’r consortia rhanbarthol yn nodi cyfnodau a cherrig milltir addas ar gyfer eu gwaith ar gefnogi’r Cwricwlwm i Gymru. Mae’r rhain yn galluogi arweinwyr i olrhain perfformiad a chymorth, a dwyn swyddogion i gyfrif am yr agwedd hon ar eu gwaith.

Mae pob un o’r pedwar consortiwm rhanbarthol yn alinio eu blaenoriaethau cynllunio busnes yn agos â’r Genhadaeth Genedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2017) ac yn ystyried polisi cenedlaethol yn dda i lywio eu cynllunio o ran camau gweithredu penodol. Yn benodol, mae ganddynt ffocws clir ar ddiwygio addysgol a ffocws cryf ar agweddau ar ddylunio a chyflwyno’r cwricwlwm. Caiff y cynlluniau hyn eu llywio’n addas gan ystod o dystiolaeth a gasglwyd gan randdeiliaid ac arbenigwyr allanol. Mae arweinwyr a swyddogion yn monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu yn rheolaidd.

Mae’r pedwar consortiwm rhanbarthol yn ceisio edrych ar eu gwaith yn allanol yn rheolaidd i gefnogi diwygio addysgol. Mae hyn yn cynnwys comisiynu ymchwil gan brifysgolion a gweithwyr addysg proffesiynol eraill i adolygu agweddau ar eu gwaith,

fel cymorth ar gyfer y cwricwlwm, a darparu argymhellion ar gyfer gwella. Mae’r rhain fel arfer yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar draws y consortia rhanbarthol, ac yn rhoi adborth buddiol i’r rhanbarth er mwyn iddynt allu addasu a gwella’u gwaith.

Hefyd, mae’r pedwar consortiwm rhanbarthol wedi ymgysylltu ag ystod o weithwyr addysg proffesiynol i lywio eu dysgu proffesiynol a chymorth ar gyfer dylunio’r cwricwlwm a’r Cwricwlwm i Gymru. Mae’r dull hwn wedi helpu’r consortia i ddatblygu dealltwriaeth swyddogion o egwyddorion dylunio’r cwricwlwm, ac wedi cefnogi datblygu’r rhaglen genedlaethol ar gyfer diwygio’r cwricwlwm. Mae’r consortia rhanbarthol yn ymgysylltu â’r arbenigwyr hyn yn rheolaidd i brofi eu syniadau a myfyrio ar y negeseuon pwysig y maent yn eu rhannu ag ysgolion. Mae hyn wedi eu cynorthwyo’n dda i ddatblygu a gwella eu dealltwriaeth a mireinio eu cymorth cwricwlwm generig ar gyfer ysgolion ac UCDau.

Yn gyffredinol, mae’r awdurdodau lleol sy’n gweithio fel rhan o gonsortiwm yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu’n dda am waith eu consortiwm rhanbarthol, ac yn gweithio gyda swyddogion rhanbarthol i fonitro ymgysylltiad eu hysgolion â chymorth rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae’r consortia rhanbarthol yn darparu gwybodaeth addas i swyddogion awdurdodau lleol a chynghorwyr sy’n eu helpu i ddeall y gweithgaredd sydd wedi cael ei gynnal a nifer yr ysgolion sydd wedi cymryd rhan. Nid yw’r wybodaeth hon bob amser yn canolbwyntio’n ddigon agos ar yr effaith y mae’r ymgysylltiad â dysgu proffesiynol wedi’i chael ar wella datblygu neu addysgu’r cwricwlwm.


Pan mae consortia rhanbarthol yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion cryf, gall yr arweinwyr hyn werthuso effaith ac ansawdd dysgu proffesiynol, ac mae’r consortia rhanbarthol yn defnyddio’r wybodaeth hon yn dda i gefnogi eu gwerthusiadau o’u cynlluniau busnes. Yn ychwanegol, defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i rannu arfer gref ac arfer sy’n dod i’r amlwg, ac mae ysgolion ar draws y consortia rhanbarthol yn croesawu’r dull hwn.

Mae’r consortia rhanbarthol wedi nodi bod angen gwella gwerthuso dysgu proffesiynol a chymorth ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu, ac wrthi’n datblygu eu dulliau ar hyn o bryd i’w galluogi i ddefnyddio ystod ehangach o dystiolaeth i gefnogi gwerthuso a gwella’r agwedd hon ar eu gwaith.

At ei gilydd, nid yw’r pedwar consortiwm rhanbarthol a’r tri awdurdod lleol nad ydynt mewn consortiwm ar hyn o bryd yn gwerthuso effaith eu cymorth ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu yn ddigon effeithiol. Maent yn dibynnu gormod ar farn ac adborth gan arweinwyr ysgolion a chynrychiolwyr, ac nid ydynt yn casglu ystod ddigon eang o dystiolaeth uniongyrchol i gefnogi eu gwerthusiadau. Mae consortia rhanbarthol yn cydnabod yr heriau hyn ac wedi nodi bod gwerthuso effaith y cymorth ar gyfer diwygio’r cwricwlwm yn benodol yn heriol. Mae hyn yn bennaf gan y bydd effaith newid y cwricwlwm yn cymryd amser i effeithio ar gynnydd a deilliannau disgyblion. Fodd bynnag, wrth gynllunio’r agwedd hon ar eu gwaith, nid yw’r consortia rhanbarthol bob amser yn meddwl yn ddigon gofalus yn y cyfnod cynllunio ar gyfer unrhyw gymorth am sut gallai llwyddiant ymddangos. O ganlyniad, nid ydynt yn gosod meini prawf llwyddiant clir, er enghraifft amlygu’r agweddau ar addysgu neu’r wybodaeth am ddylunio’r cwricwlwm y maent yn anelu at eu gwella ar ddechrau eu gwaith.

Pan mae hyn yn gweithio'n dda, mae arweinwyr yn nodi blaenoriaethau clir ar gyfer gwella trwy ddefnyddio tystiolaeth uniongyrchol i werthuso'u gwaith. Mae swyddogion yn alinio eu gwaith â'r blaenoriaethau hyn yn agos, ac yn darparu ystod o ddysgu proffesiynol a chymorth generig a thargedig. Mae swyddogion cwricwlwm a gwella ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i fonitro effaith eu gwaith ar addysgu a'r cwricwlwm mewn ysgolion, ac yn addasu eu cymorth yn unol â hynny. Pan mae gan ysgolion swyddogion gwella cryf, maent yn nodi meini prawf llwyddiant clir ar gyfer gwella gyda graddfeydd amser addas. Mae hyn yn galluogi arweinwyr a swyddogion ysgolion i fonitro cynnydd yn agos, a nodi a yw'r cymorth a'r dysgu proffesiynol yn cael effaith gadarnhaol ar waith yr ysgol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r meini prawf llwyddiant hyn yn nodi'r agweddau penodol ar addysgu a'r cwricwlwm y mae angen eu gwella. Mae hyn yn cynorthwyo'r ysgol yn dda i ddeall blaenoriaethau gwella, ac yn golygu y gellir targedu, monitro a gwerthuso'r holl gymorth yn yr ysgol yn dda.

## Diagram – dulliau effeithiol o werthuso cymorth a dysgu proffesiynol



Pan arolygom ni'r consortia rhanbarthol yn 2016, cafodd tri o'r pedwar consortiwm rhanbarthol argymhellion i wella ansawdd eu prosesau gwerthuso. Yn yr adroddiadau hyn, nodom, yn gyffredinol, nad oes meini prawf llwyddiant digon clir gan gynlluniau gwella, a oedd yn ei gwneud yn anodd i arweinwyr fonitro cynnydd. Yn gyffredinol, roedd y gwerthuso yn dibynnu gormod ar wirio bod prosesau wedi digwydd yn hytrach nag ansawdd y cymorth a'r gwella. Yn ychwanegol, roedd amrywioldeb yn ansawdd y gwerthuso o fewn y consortia, ac ar eu traws. Yn ystod yr ymweliadau monitro yn 2017, roedd y tri chonsortiwm wedi gwneud cynnydd cryf yn gwella'r prosesau hyn, yn cynnwys gwella'r defnydd o dystiolaeth uniongyrchol a gosod meini prawf llwyddiant cliriach ar gyfer eu gwaith.

Ers yr ymweliadau monitro hyn, mae'r consortia rhanbarthol hyn wedi parhau i fireinio eu dulliau o gynllunio a gwerthuso busnes, ac maent yn gosod meini prawf llwyddiant cliriach ar y cyfan ar gyfer agweddau penodol ar eu gwaith, ac yn defnyddio ystod briodol o dystiolaeth uniongyrchol i werthuso llawer o'u gwaith. Fodd bynnag, wrth ystyried addysgu a'r cwricwlwm, nid ydynt yn gwneud defnydd digon cryf o werthuso uniongyrchol, ac wrth nodi meini prawf llwyddiant, nid ydynt yn ystyried yr agweddau ar addysgu a'r cwricwlwm y maent yn dymuno'u gwella yn ddigon da. Mae hyn yn cyfyngu ar allu arweinwyr a swyddogion i ystyried effaith y gwaith hwn yn ddigon agos. Yn ychwanegol, mae'n ei gwneud yn anodd nodi a chynllunio cymorth pwrpasol ar gyfer yr agweddau hyn.

Yn 2020, pan gyhoeddom ein hadroddiad thematig, 'Datblygu Arweinyddiaeth', argymhellom y dylai consortia rhanbarthol ystyried sut orau y gallent "werthuso effaith rhaglenni datblygu arweinyddiaeth dros gyfnod" (Estyn, 2020a, tud. 5). At ei gilydd, nid yw gwerthuso dysgu proffesiynol a chymorth ar gyfer diwygio'r cwricwlwm ac addysgu wedi'i datblygu'n ddigonol o hyd, ac nid yw'n cynorthwyo arweinwyr i nodi a chynllunio ar gyfer gwelliannau mewn arweinyddiaeth, y cwricwlwm nac addysgu yn ddigon da.

Yn ystod pandemig COVID-19, mae wedi bod yn anoddach i gonsortia rhanbarthol gasglu a defnyddio ystod o dystiolaeth uniongyrchol, ac felly, bu'n rhaid iddynt ddibynnu mwy ar farn rhanddeiliaid i lywio'u gwaith. Yn ychwanegol, maent wedi gweithio'n galed i leddfu pwysau ar ysgolion, sydd wedi golygu lleihau nifer yr ymweliadau ac addasu'r ffordd y maent yn cynorthwyo ysgolion. Wrth i'r consortia rhanbarthol ddechrau cynyddu'r agwedd hon ar eu gwaith, maent yn dechrau nodi ffyrdd y gallant wella eu dulliau gwerthuso a gwella i'w cynorthwyo'n well i ddeall a monitro effaith eu gwaith ar gyfer cynorthwyo a gwella'r cwricwlwm ac addysgu.


## Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn deilio o ymweliadau ag ystod o bartneriaid yn y system addysg yng Nghymru, yn cynnwys y pedwar consortiwm rhanbarthol, y tri awdurdod lleol nad ydynt mewn consortiwm ar hyn o bryd, a sampl o 40 ysgol ledled Cymru.


Yn ogystal â'r ymweliadau hyn, ymgysylltom ni hefyd â'r 19 awdurdod lleol arall trwy waith ein harolygwyr cyswllt, a chyhoeddi a hyrwyddo arolwg agored wedi'i dargedu at arweinwyr ac ymarferwyr ysgolion. Hefyd, cynhaliom grŵp ffocws arweinwyr UCDau i ofyn eu barn am ansawdd ac effaith y cymorth.

Cawsom 146 o ymatebion ar gyfer ein harolwg agored. Cyflwynir dadansoddiad isod:

### Ffigur 1: Ymatebion yn ôl rhanbarth



### Ffigur 2: Ymatebion yn ôl rôl ymatebwyr




Yn ystod ein hymweliadau â'r pedwar consortiwm rhanbarthol a'r tri awdurdod lleol nad ydynt mewn consortiwm ar hyn o bryd, bu arolygwyr:

- yn cyfweld ag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, a swyddogion ar draws y sefydliad
- yn craffu ar ystod eang o dystiolaeth

Roedd sampl yr ysgolion yn cynnwys ysgolion cynradd, uwchradd, pob oed ac arbennig, ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Mae'r sampl ysgolion yn cynrychioli ystod y cyd-destunau o ysgolion o bob cwr o Gymru. Yn ystod yr ymweliadau hyn, bu arolygwyr:

- yn cyfweld ag uwch arweinwyr, arweinwyr canol ac athrawon dosbarth
- yn craffu ar ddogfennau perthnasol, lle bo'n briodol
- yn cynnal teithiau dysgu ac arsylwadau gwersi, lle bo'n briodol

Cynhaliwyd pob ymweliad yn ystod tymor yr hydref 2021, a dilynwyd y canllawiau ar gyfer delio â phandemig COVID-19.

Cafwyd tystiolaeth ychwanegol o'r canlynol:

- adroddiadau arolygu ysgolion cynradd, uwchradd, pob oed ac arbennig, o 2015 – 2020
- adroddiadau arolygon thematig Estyn
- ymweliadau ymgysylltu ag ysgolion
- adroddiadau monitro ar gyfer ysgolion mewn categorïau statudol

Hoffai Estyn ddiolch i'r darparwyr canlynol a gyfrannodd tuag at yr adroddiad hwn:

Ysgol Pentrahafod, Abertawe
Ysgol Dyffryn Conwy, Conwy
Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig, Ceredigion
Ysgol Maes Y Gwendraeth, Sir Gaerfyrddin
Ysgol Bro Idris, Gwynedd
YGG Garth Olwg, Rhondda Cynon Taf
Dŵr-y-felin, Castell-nedd Port Talbot
Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi, Caerdydd
Ysgol Gynradd Thornwell, Sir Fynwy
Ysgol Gynradd Gymunedol Victoria, Wrecsam
Ysgol Gynradd Brychdyn, Sir y Fflint
Ysgol Gynradd Gymunedol Bedlinog, Merthyr Tudful
Ysgol Gynradd Coed-duon, Casnewydd
Ysgol Gynradd Llanidloes, Powys
Ysgol Uwchradd Llanidloes, Powys
Ysgol Gorllewin Mynwy, Torfaen
Ysgol Y Faenol, Sir Ddinbych
Ysgol Gynradd Nant-y-Parc, Caerffili
Ysgol Gynradd Y Clas, Abertawe
Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseff, Wrecsam
Ysgol Gynradd Gelliswick, Sir Benfro
Ysgol Gynradd Oakfield, Caerdydd
Ysgol yr Hendy, Sir Gaerfyrddin
Ysgol Aberporth, Ceredigion
Ysgol Gwenffrwd, Sir y Fflint
Ysgol Gynradd Pendeulwyn, Bro Morgannwg
Ysgol Santes Fair, Ynys Môn
Ysgol Gynradd Windsor Clive, Caerdydd
Ysgol Gynradd Glasllwch, Casnewydd
Ysgol Gynradd Gymunedol Aberriw, Powys
Ysgol Capelulo, Conwy
Ysgol Gynradd Darran Park, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gynradd Trallwn, Abertawe
Ysgol Gynradd Creunant, Castell-nedd Port Talbot
Ysgol Gynradd Osbaston, Sir Fynwy
Ysgol Gynradd Sant Andreas, Casnewydd
Ysgol Arbennig Crownbridge, Torfaen
Ysgol Hafod Lon, Gwynedd
Ysgol Crug Glas, Abertawe
Ysgol Arbennig The Hollies, Caerdydd

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **addysgeg** | Dull ac arfer addysgu |
| **consortia rhanbarthol** | Y ddarpariaeth a sefydlwyd gan grŵp o awdurdodau lleol i gyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion fel yr amlinellir ym Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio’n Rhanbarthol Llywodraeth Cymru |
| **Dyfodol Llwyddiannus** | Adolygiad annibynnol o’r cwricwlwm a’r trefniadau asesu yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn 2015 |
| **Meysydd dysgu a phrofiad (Maes dysgu a phrofiad)** | Mae Dyfodol Llwyddiannus yn cyfeirio at ddatblygu chwe maes dysgu a phrofiad fel ffordd o drefnu pynciau’r cwricwlwm. Y rhain yw’r celfyddydau mynegiannol, iechyd a lles, y dyniaethau, ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu, mathemateg a rhifedd, a gwyddoniaeth a thechnoleg (Donaldson, 2015, tud. 38-9). |
| **OECD** | Mae’r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn sefydliad economaidd rhynglywodraethol gyda 35 o aelod-wledydd a sefydlwyd ym 1961 i ysgogi cynnydd economaidd a masnach y byd |
| **Rhaglen genedlaethol dysgu proffesiynol** | Rhaglen hyfforddiant a chymorth ar gyfer ysgolion ac UCDau wrth iddynt baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru |
| **ymholi proffesiynol** | 'Ffordd o ganfod' neu ymchwiliad sydd â rhesymwaith a dull y gellir ei esbonio neu’i amddiffyn. Wedyn, gellir rhannu’r canfyddiadau fel ei fod yn dod yn fwy na myfyrdod neu ymholiad personol |
| **ysgolion arloesi** | Ysgolion a weithiodd gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i ddatblygu a pheilota’r Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae Ysgolion Arloesi wedi cefnogi datblygu agweddau ar y cwricwlwm a / neu ddatblygiad proffesiynol. |
| **Ysgolion arloesi’r Fargen Newydd** | Ysgolion a weithiodd gyda Llywodraeth Cymru i ystyried gofynion dysgu proffesiynol yng Nghymru |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau

Coe, R., *et al.* (2014) *What Makes Great Teaching: Review of the Underpinning Research.* London: The Sutton Trust. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.suttontrust.com/our-research/great-teaching/ [Darllenwyd 2 Tachwedd 2021].

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf [Darllenwyd 2 Tachwedd 2021].

Education Endowment Foundation (2021) *High-quality Teaching*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://educationendowmentfoundation.org.uk/support-for-schools/school-improvement-planning/1-high-quality-teaching [Darllenwyd 4 Tachwedd 2021].

Estyn (2013) *Teithiau Gwella Deuddeg Ysgol Uwchradd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Teithiau%2520gwella%2520deuddeg%2520ysgol%2520uwchradd%2520-%2520Rhagfyr%25202013.pdf [Darllenwyd 3 Tachwedd 2021].

Estyn (2015) *Arfer Orau o ran Datblygu Arweinyddiaeth mewn Ysgolion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Arfer_orau_o_ran_datblygu_arweinyddiaeth_mewn_ysgolion_-_Mehefin_2015.pdf [Darllenwyd 3 Tachwedd 2021].

Estyn (2016) *Arweinyddiaeth a Gwella Ysgolion Cynradd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Leadership%2520and%2520primary%2520school%2520improvement%2520cy%2520%2520-%2520new%2520links.pdf [Darllenwyd 3 Tachwedd 2021].

Estyn (2018a) *Arloesi'r Cwricwlwm mewn Ysgolion Cynradd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Curriculum%2520innovation%2520in%2520primary%2520schools%2520-%2520cy.pdf [Darllenwyd 2 Tachwedd 2021].

Estyn (2018b) *Gwella Addysgu.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Improving%2520teaching%2520-%2520cy.pdf [Darllenwyd 1 Hydref 2021].

Estyn (2018c) *Paratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Preparing%2520for%2520the%2520DCF%2520cym.pdf [Darllenwyd 4 Hydref 2021].

Estyn (2018d) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru: 2017-2018.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-

01/Estyn_Annual%2520Report_Accessible_Welsh_2018.pdf [Darllenwyd 3 Tachwedd 2021].

Estyn (2019) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru: 2018-2019.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-01/ESTYN%20Annual%20Report%202020_WELSH.pdf [Darllenwyd 4 Tachwedd 2021].

Estyn (2020a) *Datblygu Arweinyddiaeth: Astudiaethau Achos o Ddysgu Proffesiynol ar gyfer Arweinyddiaeth Ysgolion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-08/Leadership%2520development%2520-%2520Thematic%2520survey%2520report%2520cy.pdf [Darllenwyd 1 Hydref 2021].

Estyn (2020b) *Partneriaethau â Chyflogwyr mewn Ysgolion Uwchradd ac Arbennig.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-08/Partnerships%2520with%2520employers%2520in%2520secondary%2520and%2520special%2520schools%2520cy.pdf [Darllenwyd 1 Hydref 2021].

Estyn (2020c) *Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru: Astudiaethau Achos a Chameos o Ysgolion Uwchradd, Ysgolion Pob Oed ac Ysgolion Arbennig.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-08/Preparing%20for%20the%20Curriculum%20for%20Wales%20cy.pdf [Darllenwyd 5 Hydref 2021].

Estyn (2020d) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru: 2019-2020.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-12/Adroddiad%20Blynyddol%20Estyn%202019-2020.pdf [Darllenwyd 4 Tachwedd 2021].

Hattie, J. (2003) *Teachers Make a Difference, What is the Research Evidence?* Melbourne: Australian Council for Educational Research. [Ar-lein]. Ar gael o: https://research.acer.edu.au/cgi/viewcontent.cgi?article=1003&context=research_conference_2003 [Darllenwyd 8 Tachwedd 2021].

King, F. (2014) *Evaluating the Impact of Teacher Professional Development: An Evidence-based Framework.* [Ar-lein]. *Professional Development in Education,* **40** (1), 89-111. Ar gael o: https://eric.ed.gov/?q=+teacher+pd&id=EJ1028769 [Darllenwyd 8 Tachwedd 2021].

Ko, J., Sammons, P., a Bakkum, L. (2013) *Effective Teaching: A Review of Research and Evidence.* Reading: CfBT Education Trust. [Ar-lein]. Ar gael o: https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED546794.pdf [Darllenwyd 8 Tachwedd 2021].

Llywodraeth Cymru (2014) *Y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/model-cenedlaethol-ar-gyfer-gweithio-rhanbarthol [Darllenwyd 3 Tachwedd 2021].

Llywodraeth Cymru (2015) *Y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol: Adfywio Gwaith Rheoli Pobl mewn Ysgolion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/model-cenedlaethol-ar-gyfer-gweithion-rhanbarthol-adfywio-gwaith-rheoli-pobl-mewn-ysgolion [Darllenwyd 3 Tachwedd 2021].

Llywodraeth Cymru (2017) *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl: Cynllun Gweithredu 2017-21.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf [Darllenwyd 4 Tachwedd 2021].

Llywodraeth Cymru (2018) *Gwerthusiad Ffurfiannol o'r Model Ysgolion Arloesi: Crynodeb Gweithredol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https:// https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-06/180712-formative-evaluation-pioneer-school-model-summary-cy.pdf [Darllenwyd 3 Tachwedd 2021].

Llywodraeth Cymru (2020a) *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/api/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf [Darllenwyd 3 Tachwedd 2021].

Llywodraeth Cymru (2020b) *Cwricwlwm i Gymru: Y Daith i 2022.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/api/storage/9da091a5-db8b-4202-b79e-af1f336e4c25/cwricwlwm-i-gymru-y-daith-i-2022.pdf [Darllenwyd 8 Tachwedd 2021].

Llywodraeth Cymru (2021a) *Y Daith i Weithredu'r Cwricwlwm.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-i-gymru-y-daith-i-weithredu-r-cwricwlwm/ [Darllenwyd 3 Tachwedd 2021].

Llywodraeth Cymru (2021b) *Adnewyddu a Diwygio: Cefnogi Lles a Chynnydd Dysgwyr: Ein Cynllun Adfer Addysg o COVID-19.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2021/7/4/1626351986/adnewyddu-diwygio-cefnogi-lles-chynnydd-dysgwyr.pdf [Darllenwyd 3 Tachwedd 2021].

Matthews, P. (2007) *How do School Leaders Successfully Lead Learning?* Nottingham: National College for School Leadership. [Ar-lein]. Ar gael o: https://dera.ioe.ac.uk/254/1/download%3Fid=23637&filename=how-do-school-leaders-successfully-lead-learning.pdf [Darllenwyd 8 Tachwedd 2021].

OECD (2005) *Teachers Matter: Attracting, Developing and Retaining Effective Teachers.* Paris: OECD. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.oecd.org/education/school/34990905.pdf [Darllenwyd 3 Tachwedd 2021].

OECD (2014) *Improving Schools in Wales: An OECD Perspective.* Paris: OECD. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.oecd.org/education/Improving-schools-in-Wales.pdf [Darllenwyd 8 Tachwedd 2021].

OECD (2017) *The Welsh Education Reform Journey: A Rapid Policy Assessment.* Paris: OECD. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.oecd.org/education/The-Welsh-Education-Reform-Journey.pdf#:~:text=The%20Welsh%20education%20reform%20journey%20has%20set%20into,the%20Welsh%20learner%20and%20a%20school%20improvement%20strategy. [Darllenwyd 8 Tachwedd 2021].

OECD (2021) *Teachers' Professional Learning Study: Diagnostic Report for Wales.* Paris: OECD. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.oecd-ilibrary.org/education/teachers-professional-learning-study-diagnostic-report-for-wales_caf912c7-en [Darllenwyd 9 Tachwedd 2021].

Senedd Cymru (2021) *Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.* Rhan 1. Caerdydd: Senedd Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/4/contents [Darllenwyd 9 Tachwedd 2021].